DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

RHIF 157 **MEDI 1989**

CEINION DYFFRYN CONWY

Erbyn hyn mae cymaint o bethau'n cyd-ddigwydd ar faes yr Eisteddfod a'r tu hwnt nes bod dyn yn teimlo ei fod yn colli mwy nag sy'n bosib iddo i'w dal. Felly, mae gan bob yn ei steddfod ei hun a dyna fydd gen i wrth ailbrofi ychydig ar win Llanrwst.

I Glynne - doedd dim posib osgoi'r brodor annwyl a anfarwolodd fro ei febyd mor onest. Roedd ei gysgod dros bob man a da hynny. Wyddwn i ddim tan yn ddiweddar mai yng Nghylch yr Orsedd - yr un cylch ag a osodwyd yn 1950 pan gyhoeddwyd yr Eisteddfod yr oedd ef i gipio'i choron yn 1951 - y dymunodd gael ei lwch wedi'u gwasgaru. Nepell o'r fan mae Eglwys y Plwyf lle y perfformiwyd am y tro cyntaf waith newydd gan ei fab Gareth Glyn. Deunydd y cylch caneuon oedd cyfres o gerddi'n ymwneud â chreulondeb amser a chofio.

Yn y Babell Lên cafwyd awr hyfryd dan ofal Bedwyr Lewis Jones, R Alun Evans a J O Roberts. Dyma orig deilynga'r wythnos i mi - traethu cynnil Bedwyr a llefaru deallus a disgybliedig gan ddau o'n llefarwyr mwyaf profiadol a medrus.

Bryn Terfel - profiad ysgytwol wrth ei weld yn gwisgo mantell y proffwyd o'n blaen ym mherfformiad yr oratorio Eleias. Ddeng munud cyn iddo godi ar ei draed i agor y gwaith roedd e wrthi'n yfed te yn ei fresus gefn llwyfan. O'i gwmpas roedd merched y côr yn ceisio'i lofnod ac yntau mor gartrefol yn eu plith â fel tae ym mart Bryncir.

Ar y llwyfan, yn arbennig felly mewn gwaith arwrol fel Eleias, mae'n gawr o berfformiwr. O hyn ymlaen rhaid i bob trefnydd cyngerdd dy'n gosod canwr arall yn cwmni iddo fod yn ofalus yn y dewis. Cymaint grym ei ganu, carisma ei bersonoliaeth, awdurdod ei ymddangosiad a dyfnder ei ddeallusrwydd cerddorol mai ond y goreuon a all ddal eu tir wrth rannu llwyfan gydag e.

Stel Farrar - dysgwraig y flwyddyn ac athletwraig ryngwladol dros Gymru. Fe'i gwelais ar ei gorau yng Nghynhadledd y Wasg drannoeth y dyfarniad. Roedd hi yno gyda Robin ei mab chwe mlwydd. Wrth sôn am ei phenderfyniad i ddysgu'r iaith dywedodd nad oedd am godi ei mab yn Saesneg a thrwy hynny ychwanegu at ddirywio'r iaith Gymraeg yn ei gwlad ei hun. Cic i'r post.....

Soniodd am ei phrofiad yn newid ei chyfrwng mynegiant rhyngddi hi a Robin o'r Saesneg i'r Gymraeg pan

oedd ei mab yn flwydd oed. Pan holwyd hi yn Saesneg gan ambell i newyddiadurwr, yn Gymraeg yr atebai bob cynnig a hynny er mwyn tanlinellu mai dyna'r iaith a siaradai yng ngŵydd Robin y mab. Er iddi raddio'n ddoethur mewn bioleg o Goleg Bangor doedd hi ddim am i'w gyrfa academig ddod i'r amlwg o gwbl. Ofnai y byddai hyn yn rhoi darpar ddysgwyr eraill i gredu mai ond y peniog sy'n medru codi ailiaith. Cyffesai mai digon gwan oedd ei gallu ieithyddol hi.

Dewi Sant - cafwyd perfformiad o'r gwaith fel teyrnged i'r diweddar Arwel Hughes a fyddai wedi cyrraedd ei bumblwydd eleni'n 80. Noson emosiynnol o dyner i Dwain fel arweinydd, i Enid a oedd yno gyda Delun ac Elinor Talfan wrth iddi wrando ar eiriau ei thad. Sêr y perfformiad oedd Corws Cymreig y BBC a roes ddatganiad cofiadwy o'r gwaith. Roedd gan Arwel ddawn arbennig at ysgrifennu ar gyfer lleisiau, a chafwyd gan y Côr ymdriniaeth wirioneddol deilwng.

Caryl Thomas - dyma seren y noson 'Dwylo ar y Delyn'. Ymddangosodd tua diwedd y rhaglen hirfaith ond fe gododd y tô gyda'i phresenoldeb hudolus, ei chyflwyniad cartrefol a'i chwarae meistrolgar o fiwsig clasurol, cyfoes a jazz. Roedd hi, fel ninnau oll, wrth ein bodd.

Stiward dienw - gadael y llety cyn wyth y bore i wneud darn i Heol Bobol. Sylweddoli hanner ffordd rhwng y llety a'r maes mod i heb siafo. Digwydd sôn, wrth fynd heibio megis, wrth stiward y fynedfa. "Rhoswch eiliad, gyfaill". Dyma fe draw at ei gar, i'r bôt, tyrchu mewn bag a thynnu allan siafiwr batri. "Ewch â hi", meddai, "mi fydda i yma weddill y bore". Erbyn deg roeddwn wedi gwneud y darn radio, wedi siado ac wedi dychwelyd yn ddiolchgar y teclyn i'r stiward dienw.

Liety Nia a Tudor - cwpwl ifanc wedi agor eu cartref a'u calonnau i ni. Hithau'n trin gwallt ac yn disgwyl y plentyn cyntaf ddiwedd Medi ac yntau'n yrrwr lori ar wythnos o wyliau. Tudor yn hyfforddi ail dîm pêl droed Llanrwst ac yn dwli'n deg ar C'mon Midffild - Wali'n arwr yr aelwyd. Ffefryn arall S4C yw Deryn. Am y cwisiau a'r gemau roedd y farn yn ddigon pendant - "ma nhw'n trin ni fel plant". Gair i gall.

:

Darlithiau - Dwy arbennig o ddisglair. Y naill gan Geraint Jenkins, Aberystwyth am William Jones, Llangadfan, Voltaire Cymru. Am gymeriad. Ble mae'n cwmniau drama creadigol ni yn y flwyddyn hon o ddathlu chwyldro eu bod nhw wedi llwyddo anwybyddu cymeriad a stori mor lliwgar a gwreiddiol. Darlith y Cymrodorion oedd y llall gan Alwyn Roberts Bangor. Dadansoddiad treiddgar o ddatblygiad teledu yng Nghymru dros gyfnod sefydlu S4C. Roedd dawn ryfeddol y siaradwr i grynhoi cyfrolau swmpus megis Adroddiadau Annan a Chrawford o fewn ychydig frawddegau yn ymylu ar fod yn wyrthiol. Wrth drafod y consensws a esgorodd ar y sianel a rôl allweddol Gwynfor yr hyn na chafodd sylw gan y siaradwr oedd y ffaith hon - nid ewyllys da oedd cymhelliad pawb i neilltuo rhaglenni Cymraeg ar yr un sianel leiafrifol and yr angen am gael gwared ar niwsans oedd yn ymyrryd a'u dewis democrataidd. Cael gwared ar yr iaith i ryw ghetto oedd sail dadl sawl A S ac ambell i swyddog darlledu hefyd.

Dyffryn Conwy - gwych o le a'r gweithgarwch diwylliannol yn agoriad llygad. GWyl hapus, croeso bendigedig a bwrlwm o frwdfrydedd.

Wynne Lloyd

ARIES
Cadwch broffil isel ddechrau'r mis cewch fwy o gyfle i gymdeithasu ar ôl y bymthegfed o'r mis. Mae'n bosib iawn y cewch broblemau ariannol y mis hwn. Rhywun yn gwrthod talu eu dyledion efallai? Anid dyma'r cyfnod gorau i fod mewn dyled eich hun chwaith. Mi fyddwch yn gweithio'n galed iawn tua diwedd y mis, ond fe gewch eich gwobrwyo am hynny.

TAURUS
Ydych chi wedi bod yn ysu ers tro i roi pryd o dafod i rywun, a mynegi'ch barn yn glir a chroyw? Daw cyfle i wneud hynny y mis hwn, ond thâl hi ddim bod yn rhy blwmp a phlaen chwaith. Mi gewch eich neges drosodd yn llawer haws trwy fod yn ddiplomataidd. Bydd arnoch awydd bod allan yn yr awyr agored, yn garddio neu luncian efallai!

GEMINI
Os bu pethau'n go dynn arnoch yn ddiweddar mi ddylai'r sefyllfa ariannol ystwytho tipyn y mis hwn. Cyfnod rhamantus iawn fydd hwn - cyfle i fraenu'r tir yn garwriaethol! Mae'n bosib y byddwch yn trefnu taith dramor i wledydd pell, cyfle i wario'r holl bres 'na gyda gwrthrych eich serch efallai!

CANCER
Cyfnod o gyd-dynnu gydag enaid hoff cytun fydd hon, eich cymar oes efallai neu gyfaill clos. Mi fyddwch yn cyflawni hen jobyn y buch chi yn ei osgoi ers tro. Nawr yw'r amser i dorchi llewys ac ymdaflu i'r gwaith. Fe allech elwa o werthu eiddo y mis hwn, neu mae'n bosib y byddwch yn ystyried symud tŷ.

LEO
Yn ddiweddar bu ceisio cael arian sy'n ddyledus i chi fel tynnu dŵr o garreg, ond o'r diwedd mae'r sefyllfa'n dechrau gwella ac fe ddaw y dyledion yn ôl i glwydo, er mae'n siwr eich bod wedi gwario'r arian sawl gwaith drosodd wrth ddisgwyl amdano! Os ydych yn bwriadu dechrau ar waith newydd dyma'r mis i wneud hynny.

VIRGO
Cyfnod creadigol a rhamantus iawn fydd hwn, pan fyddwch yn gwneud penderfyniad doeth ynglyn a'ch bywyd carwriaethol. Mi fydd pethau'n mynd yn hwylus a llwyddiannus iawn yn y gwaith hefyd, a thua diwedd y mis mae'n bosib y byddwch yn cysylltu â rhywun o wlad estron, a chael cyfle i deithio maes o law.

LIBRA
Mi fyddwch yn cysylltu gydag un o'ch rhieni y mis hwn, ac efallai y bydd yn eich helpu gyda helbul ariannol neu'n cynnig gair o gyngor i chi ynglyn a'ch bywyd carwriaethol. Beth bynnag yw'r broblem mi fyddwch yn falch iawn o'r help amserol. Canolbwyntiwch eich ynni ar harddu'r cartref - cyn yr hirlwm.

SCORPIO
Cyfnod cymysglyd ar sawl golwg, ac mi fyddai'n ddoeth i chi ymgynghori a'ch cymar a chyd-weithio gydag e (neu hi) ar brosiect newydd. Peidiwch â cheisio cyflawni gormod ar eich liwt eich hun ar hyn o bryd, bydd dau ben yn llawer gwell nag un. Mae'n bosib y byddwch yn gwneud cyfaill newydd o gymydog.

SAGITTARIUS
Os oes angen mwy o arian arnoch yna defnyddiwch y teleffon neu ysgrifennwch lythyr ac mi gewch eich dymuniad. Gall brawd neu chwaer fod yn wir gyfaill i chi'r mis hwn. Mae'n hen bryd i chi edrych o ddifri ar eich cynlluniau tuag at y dyfodol a threfnu'n ofalus os ydych am fod yn llwyddiannus. Thâl hi ddim i adael eich dyfodol i ffawd ar hyn o bryd.

CAPRICORN
Mae angen help a chefnogaeth eich cydweithwyr arnoch nawr yn fwy nag arfer. Siaradwch yn fwyn a synhwyrol wrthynt yn lle eu blagardio ac mi gewch eich ffordd yn ddiffwdan. Chi sydd yn y sedd yrru ar hyn o bryd, ond cwch chi ddim yn bell heb gydweithrediad pobl eraill. Mae'n bosib y cewch chi godiad yn eich cyflog y mis hwn.

AQUARIUS
Os yn bosib adre mae'ch lle y mis hwn, yn mwynhau ychydig o gysur a thawelwch. Mae hi wedi bod yn eitha snodd arnoch chi yn ddiweddar, felly cymrwch fantais o'ch cartre i ymlacio ac ail ennyn eich egni. O ran hynny, beth am ddechrau twtio a harddu'r hen le, ond peidiwch â gwthio'ch hun - sbwyliwch eich hun am dro!

PISCES
Nid dyma'r mis i fod yn anibynnol, cewch weld bod angen cyfeillion a'ch teulu arnoch i fod yn gefn i chi. A byddwch yn gweithio yn llawer gwell oddi mewn i grwp. Byddwch wrth eich bodd yn cymdeithasu hefyd, ond gochelwch beidio a gor-gymdeithasu chwaith a difaru wedyn. Popeth mewn cymedroldeb ye wich arwyddair ar hyn o bryd.

LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd

Cist Gymunedol Clwyd -
Cerdyn Credyd yn Gymraeg sef
'Cerdyn Cymru'

'Rwyf mewn cysylltiad â chwmni credyd 'Mastercard' sydd yn fodlon i baratoi cerdyn credyd yn y Gymraeg pe bai ymateb digonol. Gall unrhyw un sydd eisioes yn defnyddio 'Access' neu 'Visa' dderbyn 'Cerdyn Cymru', ac ar ben hynny, bydd yn bosibl i bobl dros 18 mlwydd oed, sydd heb gerdyn credyd ar hyn o bryd wneud cais.

Yn gyntaf, mae'n rhaid i mi brofi bod nifer sylweddol o bobl yn dangos diddordeb ac yn awyddus i gael 'Cerdyn Cymru'. Pwrpas y llythyr hwn yw gofyn i fudiadau ac unigolion ysgrifennu ataf gyda enwau a chyfeiriadau pobl sydd yn awyddus i dderbyn ffurflen gais ynghŷd â mwy o fanylion. Mi fyddwn yn pwyso, yn ogystal, am fwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr holl drefn cardiau credyd. Mae'r cwbwl yn ddibynnu, wrth gwrs, ar yr ymateb i'r llythyr hwn, ac edrychaf ymlaen at gael eich ymateb yn y dyfodol agos.

Yr eiddoch yn gywir

EURWEN EDWARDS
Cadeirydd - Cist Gymunedol Clwyd

d/o Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Clwyd
Ffordd yr Orsaf
Rhuthun
Clwyd LL15 1BP

Aled Evans ysw
67 Severn Grove
Caerdydd

Annwyl Aled

Mesur Seneddol Morglawdd Bae Caerdydd

Gair i gadarnhau'r sgwrs gawsom ni ar y ffôn bore 'ma.

Ar ôl gweld y cyfeiriad yn y 'Western Mail' ddydd Gwener at yr ymdrech aflwyddiannus i gyflwyno deiseb yn Gymraeg yn erbyn y Mesur, mi fues i'n ceisio darganfod pwy oedd y ddeisebwyr, er mwyn cynnig trafod y mesur a'r ddeiseb gyda nhw yn Gymraeg. Yn anffodus, oherwydd fod Swyddfa'r Mesurau preifat bellach ar eu gwyliau haf, ofer fu'r ymgais - tan ddiwedd pnawn ddoe, pan ddigwyddais gwrdd â hen gyfaill, Sian Lloyd a chlywed am ei chyfraniad hi a chael ei hawgrym hi y dylwn gysylltu â chi.

Fel y soniais ar y ffôn, mae un o brif swyddogion gweinyddol Corfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd Denzil Jones, yn Gymro Cymraeg hefyd, ac mi fyddai'r ddau ohonom yn barod iawn i drafod y mesur a'r ddeiseb gyda chi a'ch cyfeillion yn Gymraeg.

Dangoswch gopi o'r ddeiseb i mi felly ac mi gysyllta i â chi eto i drefnu cyfarfod.

Yn gywir

Iwan Humphreys

(cyfieithiwn y mesur ar ran y Cyngor Sir a'r Gorfforaeth).
Dybod beth yw ymateb y darllenwyr Byddai'n braf clywed o'i diwrthych.

Annwyl Olygydd

A fyddech cystal a chynnwys y canlynol yn eich rhifyn nesaf o'r Dinesydd.

Cymdeithas Cefnogwyr y Ganolfan yr Urdd - mis Mehefin

1 R A Symonds
6 Crystal Glen, Mynyddbach
2 R D N Bateman
96 Pendywallt, Yr Eglwys Newydd
3 H Wyn Jones
12 Alfred Road, Yr Eglwys Newydd

CADW'N HEINI 1989 - 1990

Er mawr siom i aelodau'r dosbarth Cadw'n Heini gorfodwyd ni gan bennaeth y ganolfan oedolion yn Glantaf, i symud y dosbarth dros dro (gobeithio) o Nos Lun i Nos Fercher. Rhyw esgus smala a gafwyd gan y cyfarwyddwr addysg ei fod am drawsnewid y ganolfan i wasanaethu'r gymuned leol. 'Doedd y ffaith fod y rhan fwyaf o'r aelodau yn dod o'r ardal gyfagos yn cyfri fawr ddim.

Fodd bynnag rhaid cadw i fynd, cadwch olwg ar y papurau lleol am y dyddiadau dechrau ac edrychwn ymlaen at weld yr hen wynebau yn ail gydio yn y gwullganeddau ac aelodau newydd hefyd yn troi i fewn. 'Does neb yn rhy hen ond efallai yn rhy ifanc.

H Lloyd Evans (ffôn 5647949)

'DRAMA LLANRWST

Mi fyddai'n werth cyflogi rhywun i wneud ymchwil i'r berthynas, neu'r diffyg perthynas rhwng yr Eisteddfod Genedlaethol a'r ddrama. Amn ryw reswm neu'i gilydd os bydd cynnwrf a chwmpo mas yn digwydd yn yr eisteddfod yna mae'n siwr fod gan y busnes drama rhywbeth i wneud â'r peth. Gwaith i'r seicolegwyr neu i'r seicotryddion fyddai ymchwil o'r fath ac mi fyddai'n ddiddorol i ddarllen yr adroddiad, a fyddai mor siwr â bod yr haul yn codi yn y bore yn dechrau ar mwy o anghytuno.

Mae'r ffrwgwd eleni wedi bod yn waeth nag arfer dim medal, a dyw hynny ddim yn beth newydd, ond dau o'r tri beirniad yn gosod drama Dewi Williams ar y blaen. Y trydydd o'r triawd yn dewis drama arall ac yn mynnu ar gael rhoi perfformiad i honno! Ie, rhyfedd o fyd yw byd y ddrama. Ni ellir ond cydymdeimlo â Dewi, brodor o Sir Fôn, sy'n gweithio dros y Gorfforaeth Ddarlledu ac wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ers blynyddoedd bellach. Mae gobaith, er hynny, y cawn wedi ei ddrama pan ddaw Theatr Gwynedd a hi ar daith y flwyddyn nesaf.

Bu cyfraniad 'pobol y ddinas' i'r ddrama yn fawr yn ystod yr wythnos. Enillwyd y gystadleuaeth actio gan gwmni'r Fuwch Goch o Gaerdydd gyda chwmni'r Crwys yn ail agos iawn. Llongyfarchiadau i'r ddau gwmni.

Cyfraniad Cwmni'r Gadwyn i'r eisteddfod eleni oedd addasiad Branwen Cennard o ffurf Arthur Miller ar 'Enemy of the people' - Ibsen'. Roedd yn addasiad da dros ben ac nid oedd na nodyn chwithig yn y rhithmau na brawddeg glogyrnaidd i'w clywed drwy'r ddrama. Swynwyd y gynulleidfa gan berthnasedd neges Ibsen - protodd nad yw cymdeithas a'r bygythiadau i iechyd y gymdeithas ddim wedi newid yr un gronyn. Mae'r setydliad drwy gymorth yr arian mawr a'r cyfryngau wedi dal i reoli yn yr un ffordd ormesgar ers dechrau hanes.

Roedd yn amlwg i'r perfformiad lwyddo wrth wrando ar sylwadau'r gynulleidfa wrth adael, ac er nad yw Theatr y Maes yn lle deilfrydol i lwyfanu drama, fe weithiodd pob dim yn dda. Mae llawer o ddiolch i'r set seml a'r defnydd o olau, cnd yn fwy na dim i'r cynhyrchydd a'r actorion. Roedd dehongliad John Owen o Salieri y llynedd yn un sy'n dal i lynu yn y cof ac roedd ei berfformiad fel Stockmann yn un y gellir ei osod ochr yn ochr â hwnnw. Roedd yn llanw'r llwyfan a'i reoli'n llwyr a thyfodd y doctor yn ddyn o gig a gwaed o'n blaenau. Cafodd gefnogaeth dda gan bob aelod o'r cwmni i greu noson o fwynhad i'r gynulleidfa. Roedd Robin Jones fel y brawd yn arch gynlluniwr a Marian Ifans yn wraig oedd yn argyhoeddi pob munud. Un enw cwbl newydd i mi oedd Owain Rogers a roddodd bortread gwych o aelod o'r wasg felen. Cafwyd diweddglo effeithiol gyda'r ddau grwt ifanc a'r tad ar fan mewn pwll o olau ar ganol y llwyfan. Mae'r cwmni'n haeddu gwell theatr a gobeithio y cawn nhw un yng Nghwm Rhymni.

Mi dalai i rai o'r cwmniau proffesiynol ddysgu gan Gwmni'r Gadwyn, roedd hi'n anodd dal pob dim oedd yn mynd yn ei flaen ar hyd a lled ardal eang iawn. Mae'n ambosibl cael cynulleidfa os na thelir sylw i bethau syml ond hollol sylfaenol fel cyhoeddusrwydd ynghylch ble a phryd mae'r ddrama i ddechrau, a rhan o waith cwmni, er gwaethaf yr hyn a ddywedodd Brecht ynghylch 'alienation' yw rhoi ychydig o gymorth i gynulleidfa pan fo gofyn am hynny.

Cwyd y sylwadau hyn am i mi fentro i weld perfformiad o Wozzek gan Theatrig - criw o fyfyrwyr o Aberystwyth yn gweithio gyda phobl broffesiynol fel Rhys Powys ac Alun ap Brinli. Ni roddwyd unrhyw wybodaeth am y ddrama wreiddiol na'r truan o awdur - dim ond mai ymdrech neu arbrawf gyda'r ddrama wreiddiol oedd yn disgwyl y gynulleidfa. Nid oedd dod o hyd i'r man perfformio yn bawdd ac fe gadwyd y gynulleidfa i aros yn y glaw mân y tu allan tra fu'r paratoadau'n cael eu gorffen y tu fewn. Mae hyn yn ffordd berffaith o ymddieithrio cynulleidfa a sicrhau na fydd dim a wna'r cwmni'n tynnu llawer o sylw ato'i hun. Roedd Lisa Lewis a Sioned Jobbins ymysg y perfformwyr ac er mawr syndod fe lwyddodd yr arbrawf er gwaethaf pob dim - roedd yn ddiddorol drwyddo ac ar adegau'n cydio ond mae cynulleidfa'n haeddu mwy o gymorth nag a gafwyd.

Aeth digon yn ei flaen yn Theatr y Maes yn ystod y dydd a gyda'r nos ond ar y cyfan ni theimlais bod yr arlwy o'r un safon ag yng Nghasnewydd. Fe gawn weld os all Cwm Rhymni wella ar hwnnw.

B.E.

ALLAN YN Y LLANNERCH

Fuoch chi yn y Llannerch yn Llanrwst? Naddo?

Yna fuoch chi ddim yn y steddfod. Y steddfod yn ei chyfanrwydd, felly.

Gwn mai'r pafiliwn yw'r steddfod i rai; ac mae eraill yn dotio ar y babell lên. Eraill wedyn yn treulio oriau yn y pafiliwn celf a chrefft, neu'n cerddec yn ddiamcan rownd a rownd y maes.

Ac fe gafodd y rhai a gerddodd i'r Llannerch wledd.

Mewn fforod, pont oedd y llannerch yn y steddfod; pont rhwng steddfod Llanrwst oedd yn mynd yn ei blaen yn nwylus - a'r steddfod sydd i ddod y flwyddyn nesa - Steddfod Cwm Rhymni.

A phe baech chi wedi dod i'r llannerch, fe fyddech chi wedi gweld sut oedd Tîm y Cwm yn gweithio.

Doedd dim ots trwy pa un o'r ddau ddrws ddeuech chi mewn, fe fyddai rhywun yn eich aros chi ac yn cynnig bargen y steddfod, mil o bunnoedd am ddim ond hanner can ceiniog - gyda lwc. A llu o wobrau eraill pe na bai lwc yn doc â'r wobr gynta ichi.

Mae'r raffl yn rhan o broses casglu arian ar gyfer y steddfod erbyn hyn a chwyddodd cronfa'r raffl arbennig hon ymhell dros fil o bunnoedd yn ystod yr wythnos.

Ac ar ôl talu eich hanner can ceiniog, byddech yn mynd at y bordydd hir o'ch blaen. Ac fe ddechreuwn ni ar y chwith; a'r cwestiwn a gâi ei ateb fynychaf yn y gornel honno oedd, 'Ble mae Cwm Rhymni?'

Map ar y ford i ddangos a chyn pen dim, byddai'r holwr am wybod am lety neu le i garafan. Dim problem, beth bynnag fyddai'r cais.

A chafwyd ambell gais diddorol. 'Lle i fi a Dad - o America.' Dim problem. 'Ond ma Dad yn naw deg un, cofiwch.' Dim problem eto - ac mae'n fwy na phosib y gwelwch chi 'Dad' yn dod allan o fyngalo reit yn ymyl y maes.

Ac os yw'r ferch yn steddfodwraig frwd, fel y dwedodd hi, falle y gwelwch chi hi'n golchi llestri wrth ffenest y gegig ac yn defnyddio lliain sychu'r Cwm a ffedog y Cwm am ei chanol.

Byddai'r rhestr o'r pethau oedd ar werth yn rhy hir i'w gosod yma, ond wrth wynebu'r dwsinau o werthwyr brwd, byddai'n amhosib ichi adael heb brynu rhywbeth - a heb gael gwybod fod y cyfan at achos da.

I gloi'r darlun, pobol y tocynnau; tocynnau pafiliwn yn bennaf - ac ateb cwestiwn arall, 'Oy hi'n wir ma' steddfod Cwm Rhymni fydd y steddfod ucha yn y byd?' 'wrth gwrs'. A'r tocynnau'n mynd yn dda.

Ac o hyn ymlaen, fe gewch chi, boool y Metropolis achos i wybod yn fisol yn y Dinesydd y byco y Bryn Bach nor bwysig y misoedd nesaf yma ag y bu Bryn y Briallu gynt.

Wyddoch chi ddim am Fryn y Briallu?

Well Trowch i dudalen 11 am yr ateb. W.J.

ADDYSGOL

Yn y llun gwelir Mr. J. Bryan Jones, Cyfarwyddwr Mudiad Ysgolion Meithrin ynghyd ag Elaine Pye, Swyddog Datblygu Caerdydd, gyda rhai o'r myfyrwyr llwyddiannus sydd wedi cwblhau Cyrsiau Hyfforddiant ar gyfer Arweinyddion Cylchoedd Meithrin. Cynhaliwyd y Cyrsiau yng Nghaerdydd ac yn y Barri.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd Cwrs Wlpan ar gyfer y myfyrwyr di-Gymraeg ac erbyn hyn maent yn rhugl yn yr iaith. Yn Ne Morgannwg mae prinder o Arweinyddion ar gyfer y Cylchoedd Meithrin ac felly os oes diddordeb gan unrhyw un i ddilyn Cwrs/Cyrsiau 1989-90 sy'n cychwyn ar yr lleg o Fedi, cysylltwch â Mudiad Ysgolion Meithrin, 10, Park Grove, Caerdydd. Ffôn: 236205

COFIO JOHN WOOD

Ar yr ail o Awst eleni bu farw y cyfaill annwyl John Wood o Clog y Berth, Llyn Close, Glan y Llyn, un o garedigion mwyaf teyrngar ein hiaith a'i diwylliant. Gwyr pawb a'i hadwaenai mor annwyl iddo oedd ein heniaith a'i Llenyddiaeth ond nid oedd pob un yn sylweddoli mai Saesneg ac nid Cymraeg oedd ei famiaith. Ganwyd a magwyd ef yn Llundain a dysgodd y Gymraeg wedi iddo ddod yn wr ifanc, a'i dysgu mor drwyadl nes iddo feistroli nid yn unig yr iaith a'i chystrawen ond hefyd reolau cymleth ei chynganeddion.

Yn ystod y pumdegau pan oedd John Wood yn dechrau dysgu Cymraeg nid oedd y cyfleusterau sydd gennym yn awr i ddysgwyr ar gael. Y man cychwyn iddo ef oedd "Welsh Made Easy" gan Caradr, a gyda chymorth parod ei briod a'i ddyfalbarhad yntau a'i ddiddordeb arbennig yn yr iaith daeth i siarad Cymraeg yn rhugl ac i ymddiddori yn ei llenyddiaeth. Daeth yn feistr ar y cynganeddion-gorchwyl pur galed hyd yn oed i rai wedi eu codi yn y Gymraeg o'u plentyndod.

Ei ganllawiau yn yr astudiaeth hon oedd, "Cerdd Dafod", John Morris Jones a barddoniaeth Dafydd ap Gwilym, Lewis Glyn Cothi, Dafydd Namor ac eraill. R'oedd gan y mesurau caeth rhyw atdyniad neulltuol iddo ac yn y rhain yr ysgrifennodd yr oll o'i farddoniaeth ei hun a'i ffefryn mawr oedd y cywydd.

R'oedd ganddo hefyd ddiddordeb mawr ym myd natur yn arbennig y planhigion. Byddai dod i adnabod y rhain a gwybod eu henwau yn y Lladin yn ogystal a'r Saesneg a'r Gymraeg yn rhoi pleser mawr iddo. Mae rhai o'i gerddi hefyd yn adlewyrchu ei hoffter o fyfyrio ar ryfeddodau'r cread.

GWr diwylliedig oedd John Wood wedi darllen yn eang mewn llawer maes ac iaith, gyda gwybodaeth a diddordeb hefyd mewn cerddoriaeth a Mozart yn "gerddor o'r cerddorion iddo". Ond ei dystiolaeth oedd fod y Beibl, Cymraeg wedi bod yn llyfr pwysig iawn iddo ac yn fawr ei ddylanwad, yn llenyddol oherwydd cyfoeth ei iaith a'i farddoniaeth ac hefyd yn ysbrydol.

Daeth John Wood a'i deulu o Llundain i Gaerdydd yn ystod 1968 pan ddaeth i weithio i'r Swyddfa Gymreig lle y bu yn fawr ei wasanaeth ac uchel ei barch. R'oedd yn aelod ffyddlon yn Eglwys y Crwys a'r Ysgol Sul yn golygu llawer iawn iddo, ef oedd ei Thrysorydd ers blynyddoedd. R'oedd yn amlwg ei fod yn Gr a chanddo adael gadarn yn y pethau sydd yn cyfrif ac fod ei ffydd yn bwysig iddo.

Rhaid cofio hefyd John Wood oedd yn meddwl yn fawr o'i deulu, dyma ganolbwynt ei fywyd ac yr oedd genedigaeth ei wyres fach Heledd yn llawenydd digymar iddo, r'oedd yn meddwl y byd ohoni.

Cydymdeimlwn yn ddwys a Mrs Kathleen Wood a chyda Gareth ac Eiddwen.

HEL MEDDYLIAU - MWY NAG UN!

"Pe bai wedi rhoi ei grefydd ar y silff yn amlach fe fyddai'n fwy o lenor". Yr Athro W J Gruffydd ddywedodd hyn am R C Berry. Fe fyddai Berry yn chwerthin yn braf rwy'n siwr. "...rhoi ei grefydd ar y silff" wir! Dywedodd yr Athro T J Morgan rywbeth tebyg hefyd. "Mae achos i resynu fod Berry wedi distewi sGn yr alwad i lenydda am fod perygl i honno ymyrryd â'i ddyletswydd fawr o bregethu Crist" (Ysgrifau Beirniadol I 1965).

Mae sôn am Berry yn addas iawn y mis hwn oherwydd yn Llanrwst, cartref yr Eisteddfod eleni, y ganed ef a phe bai yn yr Eisteddfod fe fyddwn yn gofyn iddo draethu ar y sylwadau pryfoclyd yma. Fe fydd yno o ran ei ysbryd a bydd ei enw ar un o furiau y Babell Lên yn sicr. Ond a yw galwadigaeth artist yn unrhyw rwystr iddo? A fyddai R S Thomas yntau'n fwy o fardd pe na bai'n Gr ordeiniedig? A fyddai y Deon Swift yn well dychanwr pe bai'n yrrwr trên neu'n werthwr hufen iâ? A fyddai Iwm o'r Nant yn well anterliwtiwr pe bai'n athro ysgol yn hytrach na chariwr coed? Beth yw'r berthynas gyfrin yma rhwng galwedigaeth dyn a'i waith fel bardd, llenor neu ddramodydd? Mae'n gwestiwn digon da i Seiat y Llenorion yn y Babell Lên.

Ni chredwn fod unrhyw berthynas rhwng galwedigaeth dyn a'i ddawn lenyddol. Haws dadlau mai disgyblaeth gofynion crefft yw'r unig atalfa ar unrhyw lenor neu fardd neu ddramodydd yn hytrach nag unrhyw gyfyngdra yn codi o'i alwedigaeth. Rhaid i bob artist blygu i'r ddisgyblaeth lem hon oherwydd ni Gyr unrhyw artist creadigol am unrhyw ryddid perffaith.

Silff ddidorol fyddai'r silff 'na y soniodd Gruffydd amdani, fe fyddai'r mwyafrif o feirdd a llenorion Cymru yn gorfod ei llenwi i fod yn well beirdd a llenorion.

Huw Ethall

HEL MEDDYLIAU

Nid aelodau eglwys Beulah, Rhiwbeina yn unig sy'n ymhyfrydu yn yr arwydd hardd newydd sydd ar fur y neuadd. Dylai pawb sy'n mynd heibio wneud hynny. Ysgrifenwyd y geiriau mewn llythrennau artistig "Beulah Church Assembly Rooms and Community Centre." Gresyn na allai'r enw fod yn ddwyieithog hefyd a rhai o'r aelodau yn Gymry Cymraeg. Ar wahân i'r geiriau ceir llun o groes a physgodyn. Croes ie, ond pam pysgodyn? Fe Gyr y cyfarwydd. Yn nyddiau'r Cristnogion cynnar pan oedd yn beryglus arddel y Ffydd, pan gyfarfyddai dau ohonynt (neu fwy) gwnâi un yr arwydd cudd o lun pysgodyn â'i ffon yn y llwch ( ). Y gair Groeg am bysgodyn yw 'ichtus'. I'r Cristnogion safai'r 'I' am 'Iesous' (Iesu), ch am 'Christos' (Crist), th am 'Theos' (Duw), u am 'uios' (Mab) ac s am 'soter' (Iachawdwr). Felly, y gair cudd oedd 'Iesu Grist Mab Duw Iachawdwr'.

Yr unig le arall y gwelais yr arwydd oedd ar fricsen yn nhGr Eglwys Crist, Caernarfon. (A welsoch chi'r arwydd rywle?) Pan oeddem yn blant, a'r tGr yn llawer uwch i ni bryd hynny nag y mae heddiw, arferem ofyn i ddieithryn "A welwch chi lun pysgodyn ar y tGr?" Nid oedd yn hawdd i'w weld bob amser. Bryd hynny, ysywaeth, ni wyddem ni'r cofis bach beth oedd ystyr ac arwyddocâd y pysgodyn. A gyda llaw, y Ficer bryd hynny oedd y Parch John Morgan a ddaeth ymhen blynyddoedd wedyn yn Esgob Llandaf, ac mae pulpud yn yr Eglwys Gadeiriol er cof amdano.

Dyna gydio Rhiwbeina, Llandâf a Chaernarfon â llun pysgodyn. Ond nid cydio lle a lle yn unig a wna'r pysgodyn unigryw hwn ond cydio dyn a dyn, gwlad a gwlad, cyfandir a chyfandir.....a dyn a Duw yn wir.

Huw Ethall

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816



Gair o ddiolch

Mae'n siwr fy mod yn mynegi teimladau darllenwyr Y Dinesydd i gyd wrth anfon gair fel hyn o ddiolch i 'r Parch Meurwyn Williams am ei holl waith da ar y radio yn ystod y deuddeng mlynedd a fu gyda'r BBC. Erbyn hyn daeth rhaglen "Bore Sul" yn wrando gorfodol (neu fe ddylai fod) ar bob Cristion yng Nghymru. Bu amrwyiaeth y rhaglen, ei chynnwys cyfoethog a'r cynhyrchu bywiog yn bleser ac yn adeiladaeth i bob gwrandawr. Daeth â lleisiau newydd i'n clyw, nid yn unig o Gymru a'r ynysoedd hyn ond o bellafoedd byd i'n cadw'n fyw i bob digwyddiad o bwys. Mor aml yr âi i'r rhaglenni heibio heb i neb ohonom ddweud "Diolch" amdanynt ond eu cymryd yn ganiataol. Mewn un ystyr roedd hynny'n deyrnged i Meurwyn oherwydd fe'n cyflyrwyd i ddisgwyl pethau da ganddo. Ond dyma gyfle i ddweud "Diolch yn fawr" iddo.

Nid ydym yn anghofio chwaith yr arlwy ar ein cyfer ar raglen "Ar Derfyn Dydd" a'i sir personol o "Nos da i chi bob un" ar ei diwedd, a'r gwasanaethau borêol ar ddyddiau'r wythnos.

CERDDWN YMLAEN?

BLWYDDYN NEWYDD DDA

Ar ôl naf hir-felyn lesog daeth dechrau blwyddyn addysgol newydd, ac ail ddegawd yn hanes Ysgol Glantaf.

'Roedd y flwyddyn sydd newydd fynd heibio yn un gyffroes a phrysur iawn, a'r gweithgareddau dathlu yn amrywiol. Yr uchelbwyntiau'n sicr fu'r Cyngerdd Carolau yn yr Eglwys Gadeiriol a'r Meseia yn Neuadd Dewi Sant gyda chefnogaeth caredigion y Ysgol. Cyhoeddwyd tâp o dalentau cerddorol y plant a chylchgrawn hynod o ddifyr fu'n bwrw golwg yn ôl dros y blynyddoedd. Bu taith rygbi i Ganada, taith gerdd i Awstria, cinio yng Ngwesty'r Angel a sawl digwyddiad arall. Gobeithio fod Dosbarth 6/2 eleni wedi dechrau traddodiad newydd drwy drefnu noson bleserus iawn, sef Cinio Ffarwel gyda'r athrawon yng Ngwesty'r Parc. Mwynhawyd yr amgylchiad yn fawr iawn gan bawb.

Ym mis Gorffennaf ffarweliwyd a nifer o athrawon - Miss Ann Jenkins, Mr Aled Jones, Mrs Margaret Harries, Mr Peter Griffiths a Mrs Bethan Roberts. Bu Mrs Roberts yn selod o'r staff o'r cychwyn cyntaf ac yn fawr ei chyfraniad i amryfal agweddion bywyd yr ysgol. Mawr fydd y bwlch ar ei hôl and rwy'n siwr ein bod ni gyd yn dymuno'n dda iddi hi a'r pedwar arall ar ddechrau cyfnod newydd yn eu bywyd. Ar yr un pryd yr ydym yn croesawi'r newydd-ddyfodiad atom - Miss Meleri Wyn Jones, Miss Delyth Medi Jones, Miss Eirlys Wyn Davies, Mr Philip Howells, Mr Emile Edwards, Miss Carol Jenkins a Miss Rhian Griffiths.

Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn eu plith.

Eleni eto yr ydym yn falch iawn o lwyddiant nifer fawr o'r disgyblion mewn amrywiol feysydd tu fewn a tu allan i'r ysgol. Llongyfarchiadau iddynt i gyd a dymuniadau gorau i bawb adawodd yr ysgol eleni - byddwn yn edrych ymlaen i glywed eu hynt a'u helynt.

Llongyfarchiadau i Ceirioes a Lloyd Best ar enedigaeth eu mab IWAN ar Awst y cyntaf, wyr cyntaf i Joan a Glyn Lewis a Sylvia a Douglas Best. Bydd yn dymuniadau da darllenwyr Y Dinesydd i'r ddau deulu.

Bore Sadwrn Awst y 5ed ym Eglwys Dewi Sant, Caerdydd, priodwyd Judith Wyn Jones a Simon Poulson. Mae Judith yn ferch i Selwyn a Margaret Jones Cyncoed, a Simon yn fab i Mr. a Mrs. Norman Poulson, Marlow, Bucks. Gweinyddwyd gan Gi Rhe yr Archesgob George Noakes, Archddeacon D.A.B. Hughes, a'r Parchedigion Saunders Davies a Vivian Hughes. Roedd Gemma ac Amy Robins y morynion bach priodas, a Jack Lloyd Jones y gwas bach yn llawn hwyl a sbri. Beverley Jones oedd yr organyddes a Lisa Evans oedd yn canu'r delyn, Judith Llyddyn Jones oedd yn gyfrifol am wneud y ffrog briodas. Bwriad Judith a Simon ydy ymgartrefu yng Nghaerdydd Pob hwyl iddynt.

Syniad un o ddisgyblion yr ail flwyddyn, Emma Cooper, 13 oed, o Landâf, yn bennaf, oedd mynd ati i gasglu £1,000 i noddi ci tywys i'r dall.

Roedd yr ymateb yn unfrydol - bu pob disgybl wrthi'n casglu arian trwy gynnal disco, ocsiwn, stondinau gwerthu pop, creision, melysion a chacennau yn yr awr ginio a thaith gerdded nawdd o'r ysgol yn y Tyllgoed, Caerdydd i Gastell Coch.

Dros gyfnod o ddeng wythnos yn unig fe gasglodd y plant ddwbl y nod £2,000.

Dywedodd Mrs Bethan Roberts, tiwtor yr ail flwyddyn yn yr ysgol, "Penderfynodd y plant roi hanner yr arian ychwanegol - £500 tuag at hyfforddi ail gi tywys i'r dall a'r £500 oedd yn weddill i helpu brynu sgwter trydan arbennig i un o'u cyd ddisgyblion, Dafydd Dafydd sy'n dioddef o ddistroffi'r cyhyrau.

"Mae'r sgwter yn galluogi Dafydd i fod yn annibynnol yn yr ysgol ac yn yr iard amser chwarae."

Cynhaliwyd pleidlais ymhlith y plant i enwi'r ci tywys noddedig. Yr enw ddewiswyd oedd 'Meg'.

Dywedodd Mrs Roberts, "Roedd yr ymdrech ardderchog hon yn un ffordd i blant blwyddyn un a dau i ddathlu dengmlwyddiant yr ysgol eleni."

Cyflwynodd y disgyblion sieciau i gynrychiolwyr o Gymdeithas Cwn y Deillion ac i Dafydd Dafydd mewn achlysur yn yr ysgol ar ddiwedd y tymor.

Daeth Angharad Sian Moore i'r byd ar Awst 28 yn Ysbyty Treforus, yr ferch i Susan a Stewart ac yn wyres i Joan a Ben Thomas, Llandennis Avenue, Cyncoed. Curadur Amgueddfeydd Llanelli yw Susan ac er mai 'hen bethau' yw ei phethau hi yn ei gwaith proffesiynol mae'n sicr mai'r "peth bach newydd" fydd yn cymryd ei phryd am gyfnod hir i ddod! Ein llongyfarchaidau i'r teulu oll - y rhieni newydd yn Llanelli a'r Mamgu a Tadcu newydd yng Nghyncoed.

CYNGOR CANOLOG ADDYSG A HYFFORDDIANT MEWN GWAITH CYMDEITHASOL

YSGRIFENNYDD/ES RHAN AMSER (16 ORIAU)

i weithio yn ein Swyddfa yn Nhŷ Dewi Sant, Wood St, Caerdydd

oriau i'w trafod

£3.98 - £4.30 yr awr

Gweithio yn rhugl a hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg

gallu ymdopi â thechnoleg fodern

Profiad o fyd Addysg neu Waith Cymdeithasol o fantais

Os am fwy o fanylion a ffurflen gais cysyllter â:

Keith Refault
ar Fryste (0272) 254010

CYMDEITHAS GYMRAEG DINAS POWIS

Longyfarchiadau i Eleri, merch hynaf Alun a Helen Daniel ar ei llwyddiant yn arholiadau'r N N E B a hithau wedi dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Dymunwn yn dda i Eleri yn ei swydd newydd yn ysgol 'Ashgrove', Penarth - ysgol arbennig i blant a nam ar eu clyw. Fe wyddom i gyd am bersonoliaeth hyfryd Eleri ac fe fydd ei hynawsedd a'i amyneddgarwch yn siwr o fod yn gaffaeliad i'r plant bach a ddaw dan ei gofal.

Ar Faes y Genedlaethol

Gwelwyd nifer o aelodau'r Gymdeithas ar Faes yr Eisteddfod yn Llanrwst a phob un yn barod iawn i ganu clodydd ardal hyfryd Llanrwst a Dyffryn Conwy. Cerdded o gwmpas, eistedd yn yr haul neu chloncian oedd yr hyliw ohonom ond wrth gwrs 'roedd yr Eisteddfodwyr go iawn yn ein plith i mewn yn y Babell Fawr neu'n llenydda neu rhoi barn yn yr Arddangosfa Celf a Chrefft. Ta waeth, roedd hi'n wythnos arbennig o braf i bawb.

Llongyfarchiadau i Jeremy Huw William - ef oedd enillyd yr Unawd Bariton dan 25 mewn cystadleuaeth o safon uchel dros ben. Ymfalchiwn yn llwyddiant Jeremy - mae e' bob amser yn barod ei wên a'i gymwynas ac yn union 'run fath er iddo'n gadael dros dro am borfeydd breision Caergrawnt. Braf oedd gweld ei rhieni Angela a Gerwyn yn Llanrwst yn llawenhau yn llwyddiant eu mab.
Ymhlith y Stepwyr llwyddiannus 'roedd Ellis Griffith - cafodd wobr yn y gystadleuaeth i unigolion. Hefyd 'roedd Ellis a'i briod Hilary i'w gweld yn dawnsio'n osgeiddig yn nhîm Dawnsio Gwerin Nantgarw. Fe enillon nhw'r wobr gyntaf am berfformiad hynod urddasol a disgybliedig o 'Meillionen'.
Llongyfarchiadau i chi

Noson y Bar a Chyw - Gorffennaf 15

Daeth nifer dda iawn ynghyd ar Noson Hyfryd o Hâf i'r Bar a Chyw Blynyddol. Pawb mewn hwyliau da ac eleni am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd yr haul wedi gwenu arnom a'r gwres yn ceisio goresgyn fflamau tân y Barbeciw mawr. Bwyd blasus, digon o ddiodydd, cwmniaeth hyfryd a 'Chabaret' o'r radd flaenaf - i gloriannu'r noson i'r sawl a arhosodd yn amyneddgar am y wledd! Diolch yn fawr i Gill Lewis a Rhodri Jones a holl aelodau'r pwyllgor am eu gwaith. Diolch i Linda Jones am drefnu'r raffl ac i Alun Roberts ein trysorydd am ei waith. Rhaid cyfeirio'n arbennig at drylwyredd gwaith ein hysgrifenyddes Mrs Moyra Owen - diolch i'w hymdrechion diflino fe aeth popeth yn hwylus braf ar y noson. Codwyd swm sylweddol tuag at elusennau lleol a'r ysbyty yn Llandochau.

Do, fe ganodd clychau'r llan.....
Ac fe ganodd y gynulleidfa - 'roedd hi fel Cymanfa'n wir ar ddiwrnod priodas Alun Owen, mab Rowland a Moyra Owen, Llandochau a Sarah Young o'r Barry. Gweinyddwyd yn hyfryd o effeithiol gan y Parch Meurwyn Williams a chanwyd deuawd anghyffredin o bert gan Andrew Williams a Nia Lloyd. Vernon Llywelyn oedd yr organydd. Dymunwn yn dda i Alun a Sarah - do wir, fe gafodd y ddau ddiwrnod i gofio a Chapel Bethel, Penarth dan ei sang ac yn doreithiog o flodau hardd wedi'u gosod yn gelfydd gan Helen Daniel.

Cydymdeimlad

Dymunwn anfon ein cofion caredig a'n cydymdeimlad at Rowena Davies, Llantrisant Road, Llandâf. Bu farw ei mam, Gwladys Mary Davies ar Awst 21 a chynhaliwyd y gwasanaeth Angladdol yng Nghapel Cwrt y Rhath ar y diwrnod olaf o'r mis gyda'r Parch D Haydn Thomas, Gweinidog Capel Salem, Canton, a'r Parch Alun Davies, Deon yr Eglwys Gadeiriol, Llandâf yn gweinyddu. Daeth cynulleidfa gref ynghyd i dalu teyrnged i Mrs Davies ac i ddiolch i Rowena am ei gofal hir am ei mam a'i ffyddlondeb iddi.

Cofinw am Roger Boore a'i deulu yn eu gofid presennol. Bu farw Muriel Rees-Pryce, modryb Roger ddeufis yn ôl ar ôl ystod hir, ac yna, yn fuan wedyn, bu'n rhaid i Mrs Walter Boore, chwaer Muriel, a mam Roger ddioddef llaw-driniaeth garw yn Ysbyty Leamington. Dymunwn yn dda iddi hi gan obeithio clywed newydd da yn fuan iawn.

Trist yw cofnodi marwolaeth Dan McCarthy gŵr annwyl Morfydd o Ffordd Meliden, Penarth. 'Roedd Dan yn serchus bob amser er iddo ddioddef ambell anhwylder ar hyd y blynyddoedd. Dyma i chi ddysgwr Cymraeg o'r radd flaenaf, fe welwn ei golled yng nghylchoedd Cymraeg Penarth. Cydymdeimlwn yn ddwys â Morfydd ac â'r meibion Ian ac Alun a'u gwragedd. Mae'r ddau fab yn dilyn gyrfaoedd disglair iawn, un yn Llundain a'r llall yng Nghaeredin - 'roedd Dan yn ymfalchio yn eu llwyddiant. Cofiwn yn annwyl amdano.

CYNGOR EGLWYSI CYMRAEG CAERDYDD

Rhaglen Medi 1989 - Ionawr 1990

Nos Iau, 14 Medi
Cyfarfod undebol yng Nghapel Minny Street am 7.30 o'r gloch. Testun: Cristnogion yn erbyn poenydio. Agorwr: Mr Robin Gwyndaf.

Nis Iau, 12 Hydref
Cyfarfod undebol yng nghapel y Tabernacl am 7.30 o'r gloch. Y Parch Eirian Rees: Cyfryngau Cymorth.

Nos Iau, 9 Tachwedd
Cyfarfod undebol yng nghapel Ebeneser am 7.30 o'r gloch. Y Parch Geraint Tudur: Pwy yw fy nghymydog heddiw?

Nos Iau, 14 Rhagfyr
Cyfarfod undebol yn Salem am 7.30 o'r gloch. Y Parch Alun Evans yn arwain myfyrdod ar Yr Adfent.

Nos Iau, 11 Ionawr
Cyfarfod undebol yng nghaple y Crwys am 7.30 o'r gloch. Wythnos weddi am undeb Cristnogol. Arweiniad gan Y Parch Dafydd H Owen.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Ceirios a Lloyd Best ar enedigaeth eu mab Iwan, ar Awst 1af, ŵyr cyntaf i Joan a Glyn Lewis, a Sylvia a Douglas Best.

ORIEL: siop lyfrau ac oriel Cyngor y Celfyddydau - NEWYDD AGOR YN EI CHARTRE NEWYDD

Agorwyd ORIEL, siop lyfrau ac oriel gelf Cyngor y Celfyddydau, yn ei chartref newydd yn Heol Ţŷ'r Brodyr ger Heol y Frenhines, Caerdydd ar 14 Gorffennaf. Mae'r adeilad, sy'n cynnwys bron i 6,000 o droedfeddi sgwâr, wedi ei atgyweirio'n llwyr er mwyn creu canolfan deniadol ac unigryw i'r brifddinas.

Mae cynlluniau David Hughes ar gyfer yr Oriel newydd yn gwneud defnydd dyfeisgar o ddwy lefel yn y siop lyfrau ac yn cynnwys y dulliau goleuo diweddaraf yn yr oriel. Gwnaethpwyd y gwaith gan adran mân orchwylion cwmni adeiladu Constructors TERN cyf o Benarth.

Mae gan y SIOP LYFRAU 1,400 troedfedd o silffoedd, a bydd yn cadw pob teitl mewn print sy'n ymwneud â Chymru, yn ogystal ag amrywiaeth eang o bynciau eraill. Yn 1988/89 gwasanaethodd y siop dros 26,000 o gwsmeriaid; gobeithir y bydd y ffigur ar gyfer blwyddyn gyntaf masnachu ar y safle newydd dros 40,000. Bydd naw aelod o staff yn gweithio dan gyfarwyddyd Peter Finch, sydd wedi rheoli siop lyfrau ORIEL er pan sefydlwyd hi gyntaf yn Heol Siarl yn 1974.

CLWB RYGBI CYMRY CAERDYDD

1989 - 90

Ymarfer pob nos Fawrth am 6.45 ar Gaeau Llandâf.
Croeso mawr i aelodau Hen a Newydd.

Ffoniwch Beuno Hughes C'dydd 345970
neu John Parry Jones " 733551

22-23 Medi
Cynhadledd ar y Nofel Hanes,
Gregynog gyda Marion Eames a
Wiliam Owen Roberts
Cysyllter ag Angharad Dafis
Yr Academi Gymreig
Ffôn (0222) 492 064

RON THOMAS

Yn ddiweddar penodwyd Dr.J.D.R. Thomas yn Ddarpar-Lywydd Adran Ddadansoddol y Gymdeithas Gemegol Frenhinol; ac i weithrdu fel Llywydd yr Adran, sydd a chanddi 8000 o aelodau oddifewn y Gymdeithas, am ddwy flynedd o 1990.

Darllenydd mewn Cemeg Dadansoddol ym Mhrifysgol Cymru, Coleg Caerdydd yw Ron Thomas, ac y mae ganddo record enfawr ac enwog am waith ymchwil a darlithydd yn ei faes. Y mae yn deithiwr profiadol ar draws y byd, ac ar hyd a lled Ynysoedd Prydain.

Trwy ei ddarlithiau y mae Ron yn llysgenad effeithiol dros Gymru, gan iddo agor ei ddarlithiau a thafluniau lliwgar o'i Phrif-Ddinas, ac yn atalnodi'r pwyntiau gwyddonol a thafluniau o olygfeydd prydferth cefn gwlad Cymru. Darlithiodd mewn dros 30 o wledydd tramor, gyda dros dwsin o rhain ar draws y pum cyfandir ers 1987. Yn ystod mis Awst eleni ceir ef yn Gymar Ymweliadol Enwog ym Mrifysgol La Trobe, Awstralia ac fe fydd yn gorffen ei amser yno fel Darlithydd Gwahoddedig yn Nhrydedd Cyngress Gemegol Asia a gynhelir ym Mrisbane. Daw llawer iawn o ymwelwyr tramor ato i'w labordai a'i gynadleddau yng Nghaerdydd, ac wedyn i deithio ar draws Cymru.

Ron fydd yr wythfed Llywydd wedi'r hanner cant dros y Cemegwyr Dadansoddol; diddorol yw nodi mai Theophilus Redwood oedd y Llywydd cyntaf pan sefydlwyd Cymdeithas y Cemegwyr Dadansoddol yn Llundain yn 1874. Ceir labordai Ron yn Adeilad Redwood y Coleg ym Marc Cathays, Caerdydd. Enwyd yr adeilad ar ol y teulu Redwood a oedd yn byw ym Mlas y Berllan (Orchard House), Trebwfer, Bro Morgannwg. Ar wahan i amlygrwydd Theophilus Redwood, yr oedd ei frawd, Lewis, a'i nai, Thomas, yn feddygon i Waith Haearn y Rhymni, ac enwyd Ysbyty Coffa Rhymni er clod iddynt yn 1948 ar ddechreu Y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. Yr oedd mab Theophilus, Syr Boverton Redwood yn gemegwr enwog hefyd, yn Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol; yn 1907 ef oedd Llywydd y Gymdeithas Ddiwydiannol Gemegol. Ceir llun Theophilus Redwood ar fathodyn lywyddol lliwgar a gwerthfawr yr Adran Ddadansoddol o'r Gymdeithas Gemegol Frenhinol.

Brodor o Gwynfe, Llangadog, Dyfed yw Ron Thomas, o'r un teulu a'r cenhadon cynt, sef Dafydd Griffiths ac eraill, ac a Syr John Williams. Cafodd ei addysg cynnar yn Ysgolion Cynradd Rhiwfawr (cartref ei Dadcu a Mamgu ger Cwmllynfell) a Gwynfe, ac Ysgol Uwchradd Llanymddyfri. Graddiodd yng nghemeg a mathemateg yng Ngholeg y Brifysgol Caerdydd.

Ar ôl blynyddoedd cynnar fel dadansoddwr cemegol i Gwmni Spillers a Chyngor Sir Morgannwg yng Nghaerdydd, treuliodd Ron ei oes, ac eithro pum mlynedd yn Llundain a

Chasnewydd, yn UWIST nes i'r Athrofa ymuno a Choleg y Brifysgol, Caerdydd yn 1988 i greu Prifysgol Cymru, Coleg Caerdydd.

Ron oedd yn cyntaf i dderbyn y radd Doethor mewn Gwyddoniaeth o UWIST, hyn am waith yn ymwneud ag adweithiau, didoliadau a dadansoddiadau cemegol. Digwyddodd hyn yn 1972. Yn hyn o beth, diddorol yw nodi i'r unig ddau grwt a fagwyd o'i babandod yng Ngharnaugwynion, Gwynfe dderbyn y radd uchel hon gan Brifysgol Cymru; y crwt arall oedd yr enwog lawfeddyg, Ivor Lewis, a'i derbyniodd, er anrhydedd, yn 1979 yn 83 mlwydd oed.

Ers derbyn ei radd o ddoethor, ehangodd Ron ei faes ymchwil i gynnwys dyfeisiau dadansoddi cemygynau. Yn hyn y mae'r grwp a arweinir ganddo yn un o'r rhai amlycaf yn y byd. Defnyddir y dyfeisiau ar lefel eang ym meddyginiaeth, mewn diwydiant, ac mewn dadansoddiadu o'r amgylchfyd.

Er ei brysurdeb a'i waith, mae Ron yn hael ei deyrngarwch at waith cymdeithasau ei alwadegiaeth, ac ers 1987 ef yw Ysgrifennydd Mygedol y Adran Ddadansoddol o'r Gymdeithas Gemegol Frenhinol. Hefyd mae yn Gadeirydd Pwyllgor Cylchgronau Dadansoddol y Gymdeithas. Y tu allan i'r byd gwyddonol y mae'n ddiacon a thrysorydd yn Tabernacl, Eglwys y Bedyddwyr, Caerdydd. Ei asgwrn cefn yn hyn oll yw ei briod, Gwyneth. Y mae ganddynt dair merch, sef Gaenor sydd yn feddyg teulu yn ardal Wrecsam, Lynne sydd yn athrawes yn Weymouth, a Bethan sydd yn brynwraig i Gwmni Peacocks, Caerdydd. Addysgwyd y tair yn Ysgolion Bryntaf a Rhydfelen. Mae Gaenor a Lynne yn briod, ac yn famau i bump wyr i Gwyneth a Ron.

LLOYD YN YMDDEOL

Syndod i lawer o ddarllenwyr y Dinesydd yw clywed bod Lloyd Evans, Gillian Road, Llandaf wedi cyrraedd oedran ymddeol. Ac yntau mor ifanc ei gorff a'i ysbryd anodd credu ei fod wedi rhoi deugain mlynedd o wasanaeth cydwybodol i addysg yn Ne Morgannwg.

Ar ôl cyfnod o addysg ym mhrifysgol bywyd ym Mwlch-y-llan, aeth i Ysgol Sir Tregaron ac yna ymlaen i Goleg y Drindod Caerfyrddin lle'r astudiodd Cymraeg o dan y Dr Jac L. Williams. Cadael Caerfyrddin ac ymuno gyda llu o athrawon ifanc brwdfrydig i ddysgu Cymraeg yng Nghaerdydd. Treuliodd gyfnod cyffrous yn Ysgol Catholig San David cyn symud i Drelai ac Ysgol Gynradd Cwrt-yr-ala. Ar ôl blynyddoedd diwyd fel athro arbennigol Cymraeg trosglwyddodd i fod yn athro dosbarth. Symudodd o Gwrt-yr-Ala i fod yn ddirprwy brifathro ym Mhen-y-bryn. Ond nid dyma ben y bryn i Lloyd ond yn fuan cafodd ei ddyrchafu i fod yn Brifathro ar un o ysgolion Cynradd mwyaf de Morgannwg yn Y Colcot yn y Barri lle bu'n arwain drwy esiampl am rhyw bedair blynedd ar ddeg.

Mae Lloyd wedi ymddeol ar yr adeg iawn gyda chyfnod newydd, cyffrous gobeithio, yn ymagor o flaen ein hysgolion, ond mae un peth yn ffaeith-go brin y gwelir Lloyd yn segura. Mae gwaith wedi bod yn gynhaliaeth iddo erioed a chaiff fwy o amser bellach i ddilyn ei emrywiol ddiddordebau. Mae llawer i filltir i'w rhedeg o hyd, neu i'w seiclo bellach. Mae aml i wal yn gofyn am bapur a llawer i ddrws yn y brif-ddinas yn gofyn am baent. R'wyn siwr y bydd e'n fwy na pharod i ymateb yn bositif i'r sialens hon. Mae yna aml i faes pel-droed yn y wlad hefyd y bydd ganddo bellach amser i'w mynychu; er ei bod yn ymddangos bod ei hoff dîm Dinas Caerdydd, hefyd wedi ymddeol o chwarae pet-droed. Bydd ganddo hefyd amser bellach i gynllunio setiau i gwmni drama Radyr.

Dymuna holl ddarllenwyr y Dinesydd mddeoliad hir a hapus i Lloyd a diolch iddo am i gyfraniad i fywyd Cymraeg y ddinas dros y blynyddoedd. Pob hwyl.

LLYSFAEN DDOE A HEDDIW

Yn wahanol i'r plwyf gyfagos, Llanishen, ni chymerodd Llysfaen enw'r llan wedi dyfodiad Cristnogaeth, er mai Eglwys Sant Denys yw'r ardal hynaf yn y plwyf. Bu'r eglwys normanaidd hon gyferbyn â'r Griffin Inn ers canrifoedd fel calon i'r hen bentref. Ond canrifoedd cyn hynny, ym 1119, fe geir hanes am amgylchiadau cythryblus ei hadeiladu. Ymhell cyn bod son am gontractwyr Wimpy, gwelodd hen Gymry Llysfaen gontractwyr Normanaidd ym mhersonnau Robert Fizhamon a Robert Consul yn goresgyn Blaenau Morgannwg ac adeiladu castell ac eglwysi yn null eu pensaerniaeth arbennig. Tra roedd Arglwydd Fizhamon yn codi castell ac eglwysi Cefn Onn, Llanishen a Llysfaen roedd Yr Esgob Urban o Landâf yn dechrau ar y gwaith o godi eglwys gadeiriol ar lannau'r Tâf. Cymerai'r ddau eu coed o'r un goedwig yn Llysfaen, a chan nad oedd digon i'r ddau bu rhaid i'r Pab Calixtus mewn llys yng Ngogledd Ffrainc ddyfarnu pwy oedd â mwya' o hawl i gael coed o goedwig, a oedd yn Arglwyddiaeth Fizhamon ond hefyd yn Esgobaeth Urban. Rhyfedd o fyd - yr Esgob a enillodd.

Er bod rhai'n dweud mai merthyr Normanaidd yw Sant Denys, gwell gen i gredu mai llygredigaeth o'r enw Dionysius ydyw, sef y ffurf Ladin ar Isien - y sant a sefydlodd eglwys yn Llanishen gyfagos. Os felly, mae lle i gredu bod yr eglwys yn dyddio nol i'r 6g, ac yn fwy arbennig, efallai, ei fod ar hen fan sancteiddle geltaidd. Ond mae'r tô Normanaidd a'r ffenest sy'n coffáu Sant Sior yn cadw'r hanes hyn dan gaead. Ac mae 'Rowan Way' gerllaw yn gwneud yr union un peth.

Digon hunanesboniadwy yw enw'r lle. Gair cyn-normanaidd yn cyfeirio at lys o feini neu gerrig ydyw. Y math o lys a welid yn gyffredin iawn mewn cymydau cymreig. Yn yr achos yma cwmwd Cantref Breiniol a ymestynai o Afon Rhymni yn y dwyrain i'r Tâf yn y gorllewin ac o Fannau Brycheiniog yn y gogledd i lawr at y môr yn y de. Rhanwyd y cantref yn dair rhan, ac fe syrth Llysfaen i'r cwmwd mwyaf deheuol sef Cibwr.

Cherry Tree Close a Rowan Way - 'does bosib fod ,na hanes i 'Noddy Land' fel hyn cyn 1960? Gallwn fod ar gyrion unrhyw ddinas yn unrhyw le. Na, does 'na'm byd arbennig o gymreig am swbwrbia Llysfaen ar yr wyneb, ond mae pob stryd yn y stadau newydd hyn yn sefyll ar hen gae neu hen safle sanctaidd, a'u henwau cymraeg wedi'u sathru dan draed Wimpy a Bovis. Ond yn rhyfedd iawn 'dyw hi ddim yn anodd i ddod o hyd i hanes hen blwyf Llysfaen a lyncwyd yn faesdref ogledd ddwyreiniol i ddinas Caerdydd.

Yn llyfr John Leland (1533) cyfeirir at 'Richard Williams, alias Cromwell, in the parish of Llanishen'. Ganwyd ef ar Fferm Llanishen Fach yn fab i Morgan Williams a Catherine, chwaer Thomas Cromwell. Ef oedd hen daid Oliver Cromwell, ac fe geir sôn mewn llen gwerin y bu yntau'n cuddio yn Llysfaen pan oedd hi'n argyfwng arno.

Saif tafarn poblogaidd Y Tŷ Mawr ar ffordd y graig. Ffermdŷ ydoedd ar un adeg a chyrchfan i wasanaethau cyd-enwadol yn y 16g, ond torrodd y Bedyddwyr ymaith o'r cyfarfodydd hyn dan arweiniad Henri Rees, Basaleg a chodi Capel ar dir y Dderwen Deg yn Llysfaen. Ar achlysur canmlwyddiant y capel hwn ym 1882 cyhoeddwyd llyfryn am ei hanes gan Titus Llewelyn. Ganrif yn ddiweddarach mae gennym ddogfen hanesyddol bwysig sy'n dangos bod gwerinwr o ffarmwr yn medru ysgrifennu mewn cymraeg goeth a chyhyrog ar ddechrau'r ganrif dwethaf. Sonia am ddiwygiad mawr ym 1804, ac am gost codi'r bedyddfan awyr agored am 7 swllt ym 1819. Gellir gweld y capel bach hyfryd hwn ar y ffordd rhwng Llysfaen a Rhydri. Y trydydd adeilad yw'r un a welir yno heddiw.

Fel a ddywedwyd eisoes yn y gyfres yma, mae'n rhyfedd meddwl am ardal sydd mor saesnig heddiw fel cymuned cwbl gymreig o ran cymdeithas a diwylliant. Mae Llysfaen yn agos i Basaleg ac felly'r holl ddiwylliant a glywyd yn Llys Ifor Hael. A fu Dafydd ap Gwilym ar ben y graig yn 'bron a rhewi'?! Cyfeirio ydw i at un o dribannau Morgannwg lle sonia'r bardd am y 'Tri lle sy' oera' Nghymru' gan gynnwys Craig Llysfaen yn y triawd rhynllyd.

Mae 'na rai o'r hen deuluoedd yn parhau i ffermio yn Llysfaen. Mae perthynas i Titus Llewelyn yn dal i fynychu Capel y Dderwen Deg, er mai ond unwaith y mis y clywir emynau WW yno nawr. Er mai enwau saesnig yw Tamplin a Husband, gallwch fentro mai cymraeg oedd iaith y ffermydd hyn ganrif yn ôl.

Darfu Llysfaen am Lisvane. Ond adlais o'r hen acen leol a geir yn yr enw saesneg yma. Mae'r nodwedd o newid 'a' i 'e' yn acen Morgannwg wedi goroesi yn Lisvane, gan mai Llys-fên fyddai Titus a'i gymdogion yn ei ddweud. Ac yn aml yng Nghymru fe welir bod adeiladau yn darlunio hanes lleol o oes i oes, ond bod enw'r lle yn sicrhau bod hanes hŷn na chof rhywsut yn parhau. Eironi pert yn achos Lisvane greda' i.

S. L.

Capel Derwen Deg yw enw'r capel gan mai gerllaw i Fferm Derwen Deg y'i codwyd ac y trefnwyd y fynwent. Ond rhyw dueddu mae'r ffyddloniaid sy'n mynychu'r gwasanaeth Cymraeg am bedwar o'r gloch ar yr ail Sul o bob mis i gyfeirio ato fel y 'Capel Bach'. Adwaith yw hyn i'r Capeli mawr a geir i lawr yn strydoedd y Ddinas. Ac os yw'r Capel Bach yn wahanol i'r Capeli Mawrion ei faint, tra gwahanol ydyw hefyd yn ei angylchedd. Saif fel y safodd ers ei godi yn ystod blynyddoedd cynnar y ganrif dwethaf uwch ben ffordd fechan wledig yng nghanol y caeau, ac yn unol â'i faint a'i lleoliad, mae'n gapel sy'n ennyn awyrgylch gyfeillgar, yn dod a phobl yn agos at ei gilydd ac yn peri i'r pregethwr ymgamio gydai'i gynulleidfa yn hytrach na'u trin fel targedau i'w bregwatha yn ôl dull rhai a dybir yn Bregethwyr Mawr.

Fe godwyd y capel yn gartref i achos y Bedyddwyr a gychwynodd yn ardal Llysfaen tua'r flwyddyn 1782. Yn ystod y cyfnod hunna, bu'r Methodistiad yn cynnal cyfarfodydd gweddio a phregethu mewn tai anred. Ychydig dros ganrif yn ôl, ysgrifennwyd hanes achos y Bedyddwyr yn Llysfaen gan Mr. Titus Llewelyn, Ffermwr a Deacon blaenllaw yn yr achos sydd a'i fedd i weld gerllaw dros y capel.

Credaf mai bedyddiwr pybyr oedd Mr. Llewelyn. Urth sôn am yr enwadau eraill yn ystod y dyddiau cynnar meddai:

"A chlywais fod y Methodistiaid wedi meddwl codi capel ar ben Craig Llysfaen mewn man canolog rhwng Caerffili a'r gwastadedd hyn, ond ni ddaeth hynny o gwmpas o ben. Gwir fod pen y Graig yn fan digon priodol i'n brodyr y Methodistiaid i adeiladu arno, heb fod yn agos i un afon 'na dyfroedd lawer'. Yng Nghaerffili, mae'n debyg, y cafuyd y lle mwyaf cyfleus iddynt osod yr arch i lawr."

Ond yn Llysfaen, rhoddwyd sylfaen cadarn i achos y Bedyddwyr gan frawd o'r enw Harri Rees a ddaeth i fyw i'r Tai Mawr yn 1782. Meddai Mr. Llewelyn andano:

"Nid Bedyddiwr glasfuraidd oedd Harri Rees, ond yr oedd, fel y dylai pob dyn call fod, yn Fedyddiwr i'r carn."

Aphan wahoddwyd ef, gan ryw "ur dleithr" a bregethoimewn cyfarfod cymysg â'r ymneilltuwyr eraill, i ddod i Langanna y Sul canlynnol i gymundeb, dywaid Mr Titus Llewelyn:

"Roedd Harri Rees yn rhy egwyddorol i oddef peth fel hyn. Ni chredai mewn cymundeb cymysg, ac o ganlyniad, cydiodd yn ei het a cherddodd allan; a dilynnwyd ef gan ddwy chwaer mor egwyddorol ag yntau, o'r enwau Mari Lewis ac Ann Lewis o Lanfihangel y Fedw; a dyna ben ar y cyfarfodydd cymysg o ran y Bedyddwyr."

Aeth y Bedyddwyr ymlaen yn ôl eu tryweydd eu hunain, ac ym 1789 cawsant lês o 999 o flynyddoedd ar y tir lle saif y capel yn awr.

Meddai Mr Llewelyn:
"Mae'n deilwng o sylw, mai dau dŷ annedd oedd ar y fan lle saif y capel pan ddynnwyd y tir; ond yn y flwyddyn 1792, gynawd y ddau dy dynion yn un ty i Ddau, a mawr oedd llawenydd y frawdoliaeth wedi cael man mor gyfleus i addoli Duw ynddo."

Llwyddodd yr achos. Codwyd ail gapel yn 1818 ar sylfeini'r capel cyntaf yn mesur 40' o hyd wrth 24' o led:
"Nid oedd iddo driel ond ystabl wrth un talcen, llofft uwch ben, a grisiau yn myned i mewn i'r llofft o'r capel. Costiodd y cwbl heb y cludiad, £276 18s 9c."
Ond erbyn canol y ganrif roedd seillau'r adeilad yn gwegian; ac felly yn y flwyddyn 1856, coduyd y capel presennol am y gost, heb y cludiant, o dros £500. Cafuyd agoriad o'r capel newydd ar Hydref 7 a'r Bed, 1856, pryd y pregethwyd gan nid llai na naw o weinidogion.
Parhaodd y gwasanaethau Cymraeg yn y capel ymhell i mewn i'r ganrif hon, ac arferid canu oleiaf un emyn cymraeg bob nos Sul tan yn lled ddiweddar. Tua chanol y 60au, dechreuodd poblogaeth ardal Llysfaen gynyddu. Erbyn canol y 70au, 'roedd nifer o Gymru Cymraeg - pobl ddŵad - yn byw yn yr ardal, a phendefynwyd mai da o beth fyddai cychwyn gwasanaethau Cymraeg unwaith eto yng Nghapel Derwen Deg. Y Parch Raymond Williams, Capel Tabernacl a Mr Stephen Richards, Mount Farm, Llawfeddyg, ynghyd a Mrs. Eirwen Llewelyn, diacon yn y capel a fu'n llafurio i blannu'r winllan newydd yma. (Daeth Mrs. Eirwen Llewelyn i fod yn briod ag un o ddisgynyddion Mr Titus Llewelyn, gan ddod yn ferch ifanc o Faesteg i fyw yn y Tai Mawr.)
Teimlid wrth ddechrau ar y gwasanaethau Cymraeg yng Nghapel y Derwen Deg na ddylid tarfu dim ar gapeli eraill Caerdydd. Oherwydd hynny, trefnwyd cael y cyfarfod am bedwar o'r gloch, yn fisol ar b'nawn Sul; ac felly nae 'di bod hyd heddiw. Darperir tê a theisen yn y festri wedi'r oedfa; a rhan o swyn a chyfaredd y lle yw bod hyn fel 'tae'n dilyn yn naturiol o'r gwasanaeth. A gwŷr llawer am gyfarfod y Plygain -(neu Pylgain - tybed?) pryd y gwelir y capel dan ei sang bob noson Calan 'Dolig.
Mae'r ddiadell fechan gymraeg sy'n ymgynnull bob mis yng Nghapel Derwen Deg yn ddyledus dros ben i'r deaconiaid a'r gynulleidfa - ddi-gymraeg o ran mwyafrif - sy'n mynychu'r addoldy y dyddiau yma, ac yn enwedig felly i Mrs. Eirwen Llewelyn sy'n cadw ac yn cynnal hen draddodiadau anrhydeddus y teulu. Mwyach na fyddai Mr Titus Llewelyn y gwbl fodlon ŵ threfn anenwadol y gwasanaeth. Ond er na traguelai y llifeiriant Saesnig, yr oedd, fel petai'n edrych ymlaen ym 1882 at ein dyddiau ni. Tua diwedd ei erthygl ar hanes yr eglwys, ysgrifennodd:
"Nid oes neb yn fyw yn awr a oedd yn fyw pan sefydluyd yr achos, ac nid oes neb yn fyw yn awr ag a fydd yn bodoli yn hyn o fyd pan gynhelir yr ail gyfarfod can mlwyddol." Gwir y gair; ond diolch iddo fo a'i debyg, roedd ateb, ym 1982 a heddiw ym 1989, i'r cwestiwn y mae'n siwr a ofynnwyd ar gân lawer gwaith yn y Capel Bach:
"Pwy fydd yma 'mhen can mlynedd?"

MINI-MARKET
a
SWYDDFA'R POST

Church Rd, LLYSFAEN
(John a Sue Lewis)

Papurau Newyddion
Cylchgronau
Cardiau at bob achlysur

Groser, Gwinoedd, Fideos

Ar Agor 6 - 6.30
6 - 5.30 Sadwrn

Llysfaen 759239

GWINLLAN A RODDWYD?

Guell colomen ar bren na brain - ar gangen
Guell gwinwydden drwynwen na drain.

Felly y canodd Lewis Glyn Cothi rai canrifoedd yn ôl, arhyw deimlad o'r fath a ddaeth i'r meddwl wrth sefyll ar un o gaeau-'Cae Coed'-ar fferm Pant-Teg yn Llysfaen rhyw bedair blynedd yn ôl. O'n blaen tua'r de, guelid y môr y tu draw i ran o Ddinas Caerdydd a thu hwnt iddo, diriogaeth pell Gwlad yr Haf. Y tu ôl, estynnai'r cae rhwng duy nant at dorfyn pigfain , a choed cysgodol yn dilyn y neill nent a'r llall o bob ochr. A thu draw i'r rheiny codai Craig Llysfaen i uarchod yr encil heulog rhag gwyntoedd y gogledd. Cae cynnes o bridd da, cae agored ac eto wedi'i gysgodi, a'i gywydd yn slcrhau y byddai'r oat yn rhedeg oddi arno i'r nentydd bob tu heb gyfle i gronni. Cae ymhell o'r ffordd faur : man dymunol i'r reb na swynwyd gan hudoliaethau'r odinas. Dihangfa, o bosib, rhag mwstur pobl y byd a saint ambell i fetus. Ac ar ben hyn roedd yma sialens.

Fel y mwyafrif o ffermydd Cymru, hen hen fferm yw Pant- Teg. Bu'r un teulu 'n ffermio yno ers oddeutu pedair canrif. Ond nid oes sôn am neb yn mentro tyfu gwinwydd ar y tir yn ystod y cyfnod hunnu - er i nifer o winllanoedd ffynnu yn Ne Cymru a Lloegr yn ystod yr Oesoedd Canol.

P'ru'n gymaq roedd sialens yn y syniad o blannu gwinllan ar 'Cae Coed' ac aed ati i droi'r syniad yn ffaith. Rhaid yn gyntaf oedd darllen pob llyfr a chyfrol ar winllanoedd y gellid rhoi llaw arnynt, a thrafod y grefft gyda gwinllanwyr yng Nghymru a thu draw i Glawdd Offa. Felly y cafwyd rhyw syniad am ba winwydd a fyddai orau i'r winllan arbennig yma, a pha system o gynnal canghennau'r gwinwydd a'u trin,i'w mabuysiadu.

Aphan ddaeth yr amser i'w gosod allan a'u plannu, daeth heidiau o Dymy glan gloyw - yn wŷr a llanciau, gwragedd a llanceai i lafurio yn llawn hwyl a brwdfrydedd yn ystod Gwanwyn 1986.

Fe blannwyd dros 1340 gwinwydden mewn duy res ar hugain: a da yw dweud bod dros 98% ohonynt wedi gwreiddio a ffynnu yn resi heirddion gwyrddlas ar dir 'Cae Coed' ar Fferm Pant-Teg. Awrth edrych ar y winllan, mae dyn yn dyfalu iddo'i hun beth yw y rhesum am ddiddordeb pobl yn gyffredinol mewn gwinllanoedd ac mewn plannu gwinllanoedd? Yn y Beibl, er enghraifft, fe geir un o'r cyfeiriadau cyntaf at anaethyddiaeth yn y Sed bennod o Lyfr Genesis:
'A Noa a ddechreuodd fod yn llafurwr, ac a blannodd winllan.'
'D a'i ddim ar ôl beth ddiguyddodd i Noa druan ar ôl hynny: cystal i chi ddarllen yr hanes drosoch eich hunain. Ond tybed o fyddai audur Llyfr Genesis wedi talu'r fath sylw i gamp Noa petae o uedi penderfynu mynd ati i blannu cae rudins?

Y Plannu Cynnar

Felly nefyd, o bosib, gyda golug ar Winllan Pant-Teg. Petai 'Cae Coed' wedi'i blannu â nionod neu fresych, prin y byddai golygydd hynaws Y Dinesydd wedi 'morol erthygl i'r colofnau yma am y llscyn.

Aeth Noa ati i lafurio, ac mae'r Beibl - yn Destament Hen a Newydd yn ein hargyhoeddi mai lle i lafurio yw gwinllan. Ac mae peth gwir yn hynny. Ond rhaid cyfaddef bod bywyd y gwinllanwr dipyn yn esmwythach y dyddiau hyn. O fynd ati gyda gofal a dychymyg, gellir cadw rheolaeth ar y chwyn, ac i raddau helaeth atal yr heintiau sy'n tarfu gwinwydd bron ym mhob gwinllan.

Fe benderfynnwyd mai yn ystod y pedwerydd tymor y byddid yn anelu at gynhaeaf. Mae'r gwinwydd yn tyfu ar 'System Uchel'; rhyw addasiad o drefn y 'Geneva Double Curtain' a datblygwyd ych dig flynyddoedd yn ôl yn yr Amerig. Trefnir i bob gwinwydden rannu'n ddwy gan estyn y ddwy brif gangen at wifrau y naill ochr a'r llall ple cynhelir y tyfiant a'r ffruyth. Llawn cystal nad oeddem wedi meddwl am gynhaeaf y llynedd. Fel y cofiuch, cafwyd hâf oer a gwlyb, a phrin iawn oedd y cynheeaf ledled y wlad 'ma.

Ond gleniê , cawsom hâf hir, tesog, melyn, a gwelwyd gwinwydd yn ymateb yn llawen. I fyny ac i lawr y rhesi, mae grawnsyplau lluosog, bras yn prysur aeddfedu: a cheir rhyw wefr o'u puyso yn y llaw a theimlo neu glywed trwy reddf yr addewid am y Cynhaeaf Mawr.

Tua diwedd Medi neu ddechrau Hydref eleni, mae argoelion y bydd eto dwr yn ymgasglu i'r winllan uniaith. Ac os y profir y pryd hynny, o dan haul yr Hydref, namyn rhan bychan iawn o'r mwynhad a'r hwyl a gafwyd dair blynedd a hanner yn ôl wrth gloddio a gosod y gwinwydd yn y tir, yna mi fydd yr holl fenter a dyfal-lafurio yn y winllan wedi bod yn werth chweil.

Kynric Lewis

Lle Cae Bryn y Briallu?

Yn Llundain. Dyma lle y dechreuoda Tolo'i Orsedd.

Colofn Shân Emlyn

"Adenydd Colomen pe cawn
Ehedwn a chrwydrwn 'ymhell". Rhyw deimlo felly yr ydw i yn y tywydd braf 'ma. Mae Caerdydd yn lle digon gwag i Gymry Cymraeg yn ystod mis Awst, pawb wedi mynd i gymowta i rywle. A newydd ddwad yn ôl o Lanrwst yr ydw innau a rhifyn Medi o'r Dinesydd ar y trothwy.

O sôn am golomen ar y dechrau, un o'r ychydig bethau a'm diflasodd yn ystod y Steddfod oedd y 'deryn aflonydd 'na fu'n gwibio'n ôl a blaen ar sgrîn S4C bob nos. Be' ar wyneb y ddaear oedd 'i arwyddocad a'i ddiben o 'dwch? Neu ai y fi sy'n dwp - digon posib! Ond wir yr, am y dair noson gynta roedd o'n fy ngyrru yn lloerig, y nosweithiau canlynol roeddwn i'n aros yn awchus i'w weld, ac yn pwffian chwerthin bob tro yr ymddangosai. Erbyn y flwyddyn nesa, wnaiff rhywun plis ei saethu!

Do, fe fu'n Eisteddfod hapus, gartrefol, ddigynwrf wedi'i lleoli ar lecyn hardd. Diolch i bobol Llanrwst a staff y Steddfod am 'i llafur caled. I rywun fel fi sydd wedi mynychu pob Eisteddfod oddiar 1947, mae'r modd y mae hi wedi tyfu yn anhygoel. I mi, chwith am yr hen hen bafiliwn gwyrdd a welais am y tro cyntaf ym Mae Colwyn, chwith meddwl hefyd am yr anghenfil unig 'na mewn cae ym Mhorthmadog. Ond, mae'n rhaid i mi ganol oed, ramantus atgofus wynebu bod yn rhaid symud efo'r oes.

Gwych o beth yw twf yr Wyl - Pabell Lên, Theatr Fach y Maes, Stiwdio Gerdd a Phafiliwn teilwng y Dysgwyr eleni. Gwych yr holl stondinau chwaethus - rhai ohonynt yn enfawr - y Banciau a'r Cyfryngau - a gwych y noddi sydd i'r Wyl erbyn hyn. Ond er gwyched hyn, rhyw deimlo piti dros y Pafiliwn yr oeddwn i - wedi ei wasgu i le cyfyng yn y canol, a'r bwrlwm i gyd bron o'i gwmpas. Dyna deimlais i yn Llanrwst, ac i goroni'r teimlad hwnnw, fe ddaeth hen wraig atai a gofyn "Esgusodwch fi - allwch chi ddeud wrthai lle mae'r Pafiliwn?" A'r ddwy ohonom yn sefyll wrth ei dalcen. Rhywbeth i feddwl amdano goelia i.

Wel ia, be' arall sgin i i'w ddweud deudwch? Wel fawr ddim am wn i. Gan fy mod wedi dechrau trwy ddyfynu'n llwyr allan o'i gyswllt "Adenydd colomen pe cawn....." yn fy mhen y mae'r linnell ".....am llygaid tu arall i'r dâr". Da clywed bod cymodi posib rhwng Prydain a'r Ariannin. Ella y bydd modd i Gymdeithas Cymry Ariannin ail gydio yn ei pherthynas â'r Cyngor Prydeinig, ac y cawn ni grant tuag at gynnal y ddau fyfyriwr o'r Wladfa ddaw i Goleg Harlech eleni. Pawb ai fys ynte!

BWTH RUTH

Wel helo pa hwyl sydd? Brat bod yn ôl yn y tresi wedi'r cyfnod aflêr dros yr haf, pan mae pawb ar wasagar neu ar wyliau! Ydach chi'n meddwl mod i'n gysetlyd wrth ddweud hyna - jest am fy mod i yn lecio patrwm byw mwy gaeafol?

Does yna ddim yn rhoi mwy o bleser i mi ar ddiwedd mis Awst na gweld y coed castanwydden mawr sydd yng nghaeau Llandâf ag o gwmpas y BBC a'u dail yn dechre troi lliw - yn crino. Cyn pen dim mi fydd yna gnau castanwydden ag eirin duon bach i'w hel.

Yn ystod wythnos olaf ond un mis Awst mi ges i bleser na fu yn ran o mhrofiad i ers blynyddoedd lawer - codi yn gynnar (dim byd newydd) a cywain i ysguboryn - hel mushatŵms a mwyar duon cyn i'r gwlith godi - profiad amheuthun ydi crwydro'r cseau a dim ond defaid a ceffylau yn gwmni i chi - a'r sŵn wedyn, mor wahanol - dim son am draffig nag awyrennau - dim ond swn y nant yn syrthio rhwng y creigiau a'r dail yn murmur - ie wir yn murmur. Rown i wedi anghofio faint o sioc ydi clywed dafad yn brefu yn agos atai neu nifer o geffylau yn penderfynnu rasio rownd y car.

"'Mechan i" meddwn i wrthyf hun "Mae'n rhaid i ti ddod yma'n amlach!" Ag wedi i mi gymryd eich amser chi fel hyn - beth am i mi roi risêt amserol i chi - mi ddaeth y risêt yma atom ni i Merched yn Bennaf oddiwrth Ann Thorne o Lanllwni, Llanybydder - efallai i rai ohonoch chi ei chofio yn dysgu yn Ysgol Bryntâf.

RISET CORDIAL MWYAR DUON

1. Arllwys 1pt o finegr gwin gwyn dros 2lb o fwyar aeddfed.

2. Gadael y rhain am dridiau mewn dysgl wydr (nid metel).

3. Troi yn ddyddiol i dynnu'r sudd o'r mwyar.

4. Hidlo'r hylif i sosban ac ychwanegu 14oz o siwgr a ½lb o fêl.

5. Codi'r hylif i'r berw gan sicrhau fod y siwgr a'r mêl wedi toddi.

6. Oeri'r cordial a'i rhoi mewn potel.

I leddfu effeithiau annwyd a phesychu cymrwch 1 llond llwy fwrdd mewn gwydriaid bach o ddŵr twym.

Bwrdd Yr Iaith Gymraeg

Lansio canllawiau gwirfoddol i'r Sector Preifat, Bwrdd yr Iaith, yn Tesco, Trefforest ger Pontypridd 13/7/89.

Yn y llun

Sian Griffiths, Tesco
John Walter Jones, Cyfarwyddwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg
John Elfed Jones, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg

ASIANT AU PAIR

WELSH CONNECTION

Elen Jones
16 Y Balcony,
Castle Arcade,
CAERDYDD,
CF1 2BU.
Ffôn (0222) 377452

Menna'n Manylu

Saeson a Saesneg! Dyna'r ddau bwnc mwya dyrys a dadleuol fuodd yn fy nghyfansoddiad i arioed - cael fy nghythruddo ganwaith gan Saeson angwrtais, di-deimlad, gwylltio wrth Gymry di-hidio, gwrth-Gymreig a deud pethe hollol dwp wrth gyfieithu o'r Gymraeg i'r iaith fain.

Ar ôl yr holl edrych ymlaen at Steddfod Llanrwst, cael fy siomi o glywed cynifer o fasnachwyr yr ardal yn rewnfudwyr Seisnig - 'doedd perchnogion a gweithwyr y tafarndai a'r siope'n deall dim nac yn dangos rhithyn o ddiddordeb yn yr Ŵyl, ac roedd llawer o'r Cymry lleol yn erbyn y bobol 'dosbarth canol' oedd yn ei mynychu. Roedd cyrrion safle'r Brifwyl cynddrwg bob blewyn - archebu paned o de ym Mae Colwyn, a dynes yn troi atai a deud "Tydi pawb ddim yn dallt Cymraeg yn fama 'chi' - a hynny yn yr iaith honno!! Yna, mi ofynnes i wraig ym Mhenmachno pwy oedd wedi ennill y gadair, a'r ateb swta mewn acen Gymreig, Benmachnoaidd oedd "English here plis" Roedd maes y Steddfod yn ddigon drwg hefyd - gwerthwyr crau dô, cŵn poeth a chig oen Cymru hyd yn oed yn Saeson rhonc. Biti na fyddai gan Gyngor y Steddfod ddeddf yn gwahardd pobol busnes oddi allan i Gymru er mwyn hybu economi'n gwlad ein hunain. Roedd yr Urdd yr un fath - gofyn wrth ddyn fan hufen iâ am "Un naw deg naw os gwelwch yn dda" - hwnnw'n edrych yn hurt a deud yn ei acen Cockney "I thought only the old people spoke Welsh" a miloed o blant o'i gwmpas yn siarad yr iaith! Digon tebyg nad oedd yn ymwybodol o'r Gymreictod gan fod pawb yn ducddel o droi i'r Saesneg wrth archebu "one ice cream please".

Roedd yn loes calon darllen yn 'Golwg' ganol Awst am y Seisnigeiddio yn Sir Benfro a'r mewnfudwyr yn erbyn addysg ddwyieithog i'w plant - un pen bach o Guildford yn cyhuddo'r Cymry o fod yn gul ac yn rheoli popeth. Be gebyst mae o'n ddisgwyl yn ein gwlad ein hunain a phwy gebyst mae o'n feddwl ydio fel dyn o'r tu allan. Ewadd, fel Grimbon, mae'r sefyllfa'n drewi ac mae'n bryd i ni, gyd-Gymry frwydro'n ôl, a mynnu lle teilwing i'n hiaith neu mi fydd wedi llithro drwy'n dwylo ni - mae'n rhaid i ni fod yn fwy ymosodol a hy efo'r Saeson a'r Cymry di-hidio 'ma.

I ddod at bwynt dipyn 'sgafnach ynglŷn â'r iaith fain, mi ges i'm magu heb air o Saesneg bron hyd nes oeddwn i'n yr ysgol Uwchradd. Yna, dilyn yr holl gyrsiau trwy'r Gymraeg, methu'r uned Saesneg yn y Coleg a defnyddio cyn lleied â phosib ohoni yn fy ngwaith. Mae llawer o'm teulu'n hollol unieithog ond eu bod yn gwybod digon o eirfa i roi brawddeg syml at ei gilydd. Y peth iach ydi nad oes gan neb ohonom gywilydd o'r ansicrwydd ieithyddol yma ac rydym wedi dweud llawr o bethau rhyfedd, chwithig a gwirion wrth geisio sgwrsio efo Sais. Wele rai enghreifftiau:

Ewythr i mi'n cyfarch llond tŷ o bobl - "How are you both?"
Mam isio diolch am goed tân - "Thank you for the trees."
Fi'n disgrifio'r tywydd - "A bit dull and dribling a bit."
Fy chwaer yn gofyn mewn garej am "Wind in my wheels."
Fi'n disgrifio codwm i'r ffos "I'v fallen into the dutch."
Mam yn deud am fy mrawd - "She's out somewhere and she is my son."
fi'n disgrifio lle roeddwn yn byw - "On the skirting of Bangor."
Modryb wedi cymryd "disposable anadin."
Fi'n sôn am arfau niwclear - "Nuclear disornament."
Fi wrth weld cawl poeth - "Be 'di'r pipping hot soup 'ne."
Mam wrth ddarllen rysait bwyta'n iach 'Eat plenty of skinless chicken' a mam yn deud yn hollol ddiffuant "Weles i rioed jicken heb groen"!
Dyn A.A. yn gofyn i mi 'Are you a relay member?' - finne'n ateb "Yes, I really am a member!"
Ond yr ore oedd gan ffrind yn mynd at y meddyg a deud "I've got heat." Heatiwch bevo, feder y Saeson ond siarad un iaith, a phwy sy'n mynd i boeni nad ydy nhw'n ein deall ni yn de!

RHOI TREFN AR Y TAFODIEITHOEDD

Ddydd Llun, Awst 7, cyhoeddir y llyfr cyntaf erioed i ddisgrifio tafodieithoedd y Gymraeg.

Mae Peter Wynn Thomas, Darlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Coleg Caerdydd, a Beth Thomas, ymchwilydd yn yr Amgueddfa Werin , Sain Ffagan, wedi cydweithio i gynhyrchu llyfr a chaset a fydd yn olrhain y gwahanol dafodieithoedd.

Ar gyfer y lleygwr yr ysgrifenwyd y llyfr, ac felly gwnaethpwyd ymdrech arbennig i osgoi defnyddio termau technegol. Am y tro cyntaf, felly, bydd gan y Cymro Cymraeg gyfle i weld sut y mae ei iaith yn gwahaniaethu oddi wrth iaith ardaloedd eraill.

Cymerodd y llyfr ddwy flynedd i'w gwblhau, ond mae'n crynhoi gwaith ymchwil a wnaethpwyd ar y tafodieithoedd dros yr hanner canrif diwethaf.

Mae'r caset yn cynnwys enghreifftiau o 14 darn o dafodiaith naturiol, a'r llyfr yn cynnwys trawsysgrif o'r darnau a nodiadau ar eiriau diddorol.

Disgwylir y bydd y llyfr a'r caset yn cael eu croesawu gan nifer o grwpiau o bobl ee athrawon ysgol sydd yn paratoi cyrsiau ar gyfer y TGAU, dosbarthiadau nos, dysgwyr sydd yn dymuno meithrin acen leol, ac actorion sydd am ddysgu sut i efelychu acenion gwahanol ardaloedd.

Bydd croeso arbennig i'r llyfr yn adrannau Cymraeg y Brifysgol lle yr astudir Tafodieitheg. Hyd yn hyn ni fu llawer o ddeunydd darllen ar eu cyfer, dim ond traethodau ymchwil ac ambell erthygl mewn cylchgrawn academaidd.

Tanlinellir yr angen am lyfr o'r fath gan y niferoedd sydd yn dymuno astudio'r Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Coleg Caerdydd, y coleg sydd yn arbenigo ar gynnig cyrsiau

Cyhoeddir Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg: Cyflwyno'r Tafodieithoedd gan Wasg Tâf, pris £6.95

THEATR SHERMAN

Mae Cwmni HWYL A FFLAG yn cyflwyno

Janine

gan Cefin Roberts

Drama gomedi ysgafn yn delio a Chymry Cymraeg ar eu gwyliau mewn gite yn Ne Ffrainc yw **Janine** gyda'r perchnogion dros dro, Margaret a Maldwyn yn edrych ymlaen at wyliau hamddenol ymhell o Gymru fach ac i ail gynnau tan eu priodas. Ond cyfarfod a hen ffrindiau gwyllt o ddyddiau coleg, a'u merch wrthryfelgar dwy ar bymtheg oed, Janine, a wnaent - cyfarfyddiad sydd yn arwain at gyfres o ddigwyddiadau annisgwyl ac anghyffredin.

DYDD IAU, GWENER A SADWRN - 28, 29, 30 MEDI

SWYDDFA DOCYNNAU - (0222) 230451

Y CROESAIR - Ap Lewsyn

RHIF 93



AR DRAWS

6. "Dygwch allan y wisg orau." (5,4)
8. "Cymer bwyll, Don". (5)
10. "yn rhwygo'r gwanwyn pêr o'r - - - -." (4)
11. Geirda Ethel yn cael ei chwalu gan yr ymlid arni. (10)
12. Dros ei ben a'i glustiau. (12)
15. Merch o Walia. (Mae crys amdani) (7)
16. Cuch. (7)
18. Yn wèn i gyd. (1,5,1,5)
20. Mae'r cofnod yn ddiogel. (2,3,1,4)
22. Nawr yw'r amser i droi yn ôl. (4)
23. Bytheiad.
24. Traeth go beryglus ger Cydweli. (4,5)

I LAWR

1. Baglu o'r chwith wedi darlleniad eglwysig. (5)
2. Ai lleoliad felly sydd i Gehenna' Mae aml un na ddel ato ar gyfrif ei anhrefn. (10)
3. Byddai yn canmol. (7)
4. "- - - - glychau'r creigle uchel." (Eifion Wyn) (4)
5. Terfysg yn ofalaeth R.E. (9)
7. Ni chlywir eu sŵn, ond maent yn cyfri. (12)
9. Ond y dim yw'r gwahaniaeth. (1,4,1,6)
13. Yn fyr, mewn cariad, i'r llawr, oddiwrth ras. (4,6)
14. Yr hyn sy'n brin yn 5. (9)
17. Difa tre oherwydd ei bod yn ddihid. (7)
19. "Ac a'i rhwymodd ef mewn - - - - - au." (Luc 11) (5)
21. Ymarweddiad un rhan o'r osgordd. (4)

CROESAIR RHIF 92

Ni chynigiwyd gwobr y tro hwn, ond, serch hynny, derbyniwyd pump ymgais cywir; sef oddiwrth B.T.Cyncoed; Mrs G.M.Hopkins, Llanishen; Margod Davies, Llandaf; A.R.R. Abertawe; ac Huana Simpson, Y Bontfaen.

DATRYSIAD RHIF 92

Ar Draws: 7.CLIWIAU; 8.FFLAMIODD; 10.AELOD; 11.YN ENWEDIG; 14.LLIN; 13.SWYNGYFAREDD; 16.ANESMWYTHDRA; 19.ARCH; 20.Y GLORIANNU; 23. BODIO; 22. COLER A THEI; 25.GOROESI; 26.CYNRFIN.

I Lawr: 1.BLAENWR; 2.TWM O'R NANT; 3.HAP; 4.GLANWEITHDRA; 5.AMAETH; 6.TOCIAIS; 9.ANFARWOLDEB; 12.CYDSYNIAIST; 15.ARCHAEOLEG; 17.ARHOSOL; 18.CNEIFIO; 21.DeFOD; 24.CYN.

CYSTADLEUAETH RHIF 93

Gwobr o £5 (tocyn llyfr) fel arfer. Eich enw a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed erbyn Medi 25ain, os gwelwch yn dda.

DYLID ANFON DDEUNYDD AR GYFER HYDREF AT Y GOLYGYDD SIÂN E. LLYR 5,YR HEN DŶ,HEOL FAIR,LLANDAFF52EB ERBYN PAN DELLA YR20fed O MEDI.

POBOL Y CWM

Erbyn hyn y mae Pobl y Cwm yn rhan o'n bywyd dyddiol. Pwy feddyliai flynyddoedd yn ôl y byddai hi'n bosib cael drama gyfres ddyddiol ar y teledu - yn Gymraeg? Ond, dyna sydd wedi digwydd, a ninnau fel gwylwyr yn cymeryd hynny'n gaeiatael erbyn hyn.

Yr Hydref yma bydd cyfres arall yn cychwyn, a phob un ohonom yn teimlo ein bod yn adnabod y cymeriadau, hyd yn oed yn uniaethu â rhai. Er mor gyfarwydd yr wynebau yn y Gymru fach 'ma, Meic Pierce yw Gareth Lewis, Reg yw Huw Caredig a Magi'r Post yw Magi'r Post.

Y mae tîm helaeth yn paratoi'r arlwy yma ar ein cyfer - yn waith llawn amser i fyddin o sgriptwyr, cynhyrchwyr, technegwyr ac actorion. "Cerddwn ymlaen" medda Dafydd Iwan ym myd teledu mi ryda ni wedi brasgwan i fyd soffistigiedig technoleg. Ar brydiau, wrth gwrs, nid da lle gellir gwell. Ond â'r bwrlwm yma yn digwydd yn ein Prifddinas, llongyfarchwn y tîm i gyd, edrychwn ymlaen at yr arlwy, ac yn ôl y natur ddynol fe fwynhawn ac fe feirniadwn!

TAFLEN

12, DUKE STREET ARCADE,
CAERDYDD CF1 2AZ.
FFÔN: (0222)227530

AWDL I'R CYNHAEAF

ARDDANGOSFA O WAITH NEWYDD

PRINTIADAU: DEHONGLIAD GWELEDOL O AWDL Y CYNHAEAF Y PRIFARDD DIC JONES GAN

PAUL PETER PIECH

TORIADAU PREN GAN JILL BARKER

GWAITH COED GAN DAVID WOODWARD

HEFYD I'W GWELD - GWEITHIAU GAN ARTISTIAD ERAILL YN DEHONGLI'R UN THEMA

8 MEDI - 4 HYDREF 1989
LLUN - SADWRN 10am - 5.30pm

DEWIS HELAETH O LYFRAU, CERDIAU A PHOSTERI CELF. GWASANAETH FFRAMIO

Dymuna'r DINESYDD gydnabod gyda diolch gefnogaeth y Swyddfa'r Gymreig a Chymdeithas Gelfyddydau De-Ddwyrain Cymru tuag at gostau cyhoeddi.